Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Adolygiad Gwerth am Arian o Drefniadau Ariannu Craidd Llywodraeth Cymru i Ddatblygu Mentrau Cymdeithasol

## Clymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru

Meirion Thomas a Eva Trier

## Cynnwys


**Crynodeb Gweithredol ........ 1**

**1. Cyflwyniad ........ 4**

1.1 Nodau ac amcanion ........ 4

1.2 Y Gwaith a wnaed ........ 5

1.3 Dull ........ 5

**2. Cyd-destun a chefndir ........ 7**

2.1 Cyd-destun ........ 7

2.2 Dyfarniad Grant ac Amcanion Llywodraeth Cymru ........ 8

**3. Adolygiad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd SFW ........ 11**

3.1 Economi ........ 11

3.2 Effeithlonrwydd ........ 16

3.3 Effeithiolrwydd ........ 19

**4. Casgliadau am y gwerth am arian a gafwyd ........ 23**

**5. Argymhellion ........ 24**

**Atodiad 1: Y Cyfweliadau a gynhaliwyd ........ 27**

**Atodiad 2: Social Firms Wales – model rhesymeg ........ 28**

**Atodiad 3: Dibenion Llywodraeth Cymru wrth roi cymorth grant arian craidd i SFW – 2012/2013 ........ 29**

**Atodiad 4: Prif Weithredoedd, Deilliannau Targed a Chyflawniadau SFW ........ 30**

**Atodiad 5: Social Firms Scotland a Social Firms UK : gweithgareddau a materion trafod ... 33**


## Tablau a Ffigurau


***Ffigur 1.*** ***Y costau gweinyddol a wynebwyd gan Social Firms Wales 2007 - 2012*** ........ 12

***Ffigur 2.*** ***Y cynnydd mewn costau gweinyddol flwyddyn ar ôl blwyddyn*** ........ 12

***Ffigur 3.*** ***Ffynonellau Incwm Social Firms Wales 2008 - 2013*** ........ 13

***Ffigur 4.*** ***Gwargedion a Chronfeydd Wrth Gefn SFW 2008 - 2013*** ........ 14

***Ffigur 5.*** ***Gwarged blnyddol SFW fel % o ddyfarniad grant Llywodraeth Cymru*** ........ 15

# Crynodeb Gweithredol

Nod y gorchwyl sy'n sail i'r adroddiad hwn yw gwneud adolygiad gwerth am arian o'r trefniadau ariannu craidd i Gwmnïau Cymdeithasol Cymru (SFW), Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru (DTAW), a Chlymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru (WSEC). Bydd gofyn i'r adolygiad gyfrannu at y rhesymeg dros seilio unrhyw drefniadau ariannu wedi 2012/13 drwy gynnig tystiolaeth i gefnogi penderfyniadau.

Ar gais Llywodraeth Cymru, gwnaed yr adolygiad mewn dau gam. Y cam cyntaf yw adolygu'r gwerth am arian a gafwyd gan gefnogaeth Llywodraeth Cymru i Gwmnïau Cymdeithasol Cymru – Social Firms Wales (SFW), sef testun yr adroddiad hwn.

Bu CM International yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru drwy gydol yr adolygiad gan fanteisio i'r eithaf ar y profiad a'r wybodaeth a oedd ar gael yn barod. Yn ogystal, gwnaeth CM International ddefnydd llawn o'r adnoddau, y deunydd ymchwil a'r data a oedd yn bodoli'n barod a chynhaliodd gyfweliadau manwl gyda 6 o aelodau Bwrdd SFW, 7 corff rhanddeiliad a 3 o swyddogion Llywodraeth Cymru.

I asesu'r gwerth am arian a gafwyd, defnyddiwyd dull strwythuredig sy'n ymgorffori cysyniadau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

***Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd a'r dadansoddiad a wnaed, rydym yn dod i'r casgliad fod Social Firms Wales, drwyddi draw, wedi darparu'r gwerth am arian y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol oddi wrth ei chefnogaeth ariannol ac fel arall dros y cyfnod 2008 – 2012/13.***

Hoffem dynnu sylw at y ffaith nad ydym wedi gwneud archwiliad ariannol o'r mudiad nac wedi cynnal unrhyw brofion cyfrifo.

Gellir crynhoi'r rhesymeg sy'n sail i'r casgliad hwn yn gryno fel a ganlyn:

1. Bu ymyriad Llywodraeth Cymru fel ag y cyllidebwyd yn y tri llythyr Dyfarniad Grant sy'n ymdrin â'r cyfnod hwn, h.y. cyfanswm o bron i £500,000 (£499,973) yn ystod y cyfnod 5 mlynedd o 2008 i 2013.
2. Gwelwyd lefel gref o gyflawniad a chynnydd ar draws y rhan fwyaf o'r prif feysydd gweithgaredd.
3. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn monitro cynnydd gwariant yn erbyn y gyllideb yn rheolaidd drwy gydol y cyfnod ers y Dyfarniad Grant.
4. Mae Social Firms Wales wedi creu model gweithredu sy'n defnyddio tîm craidd bychan o staff llawn amser sy'n cael cefnogaeth tîm o staff allanol rhan amser nad yw wedi'i gytundebu ond sydd ar gael ar alwad. Mae'r model hwn yn galluogi Social Firms Wales i reoli eu sail cost tra'n cael mynediad i ystod o sgiliau a phrofiad angenrheidiol a chwmpas daearyddol.
5. Mae athroniaeth a mewnbwn y Bwrdd yn rhoi hwb sylweddol i effaith ac effeithlonrwydd y corff a dim ond oherwydd ei ran weithredol a chyfraniad pob un o aelodau'r Bwrdd, rheolaeth 'fain' a'i gyflwyniad penodol y gall y datblygiad polisi a'r mewnbynnau polisi gael eu cyflawni.
6. Nid yw Social Firms Wales yn chwarae rhan gwbl draddodiadol yn ei gynrychiolaeth, ymgysylltiad polisi a mewnbynnau. Yn hytrach, mae'n ffafrio mewnbwn mwy technocratig ac ymarferol o amgylch gwir broblemau a chyd-destunau sy'n gwneud gwahaniaeth amlwg i Gwmnïau Cymdeithasol a'u cyrff tarddiad (Awdurdodau Lleol fel arfer).

7. Mae Social Firms Wales yn rhoi pwys mawr ar ei rôl yn sefydlu a chynnal cyfathrebu a chydweithredu ymhlith y rheiny sy'n ymwneud â sefydlu a datblygu cwmnïau cymdeithasol ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu fod rôl SFW mewn cynlluniau cydweithredol yn golygu rhyngweithio cytûn.
8. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Social Firms Wales wedi ymestyn ei weithgareddau i bob rhan o Gymru ac wedi gwneud ymdrech arbennig i wella ac ehangu ei waith yng Ngogledd Cymru.
9. Un prif amcan fu cynyddu incwm ymgynghoriaeth er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar gyllid Llywodraeth Cymru. Mae cyfrifon SFW yn dangos y cafwyd cryn lwyddiant mewn mynd i'r afael â'r amcan hwn gyda llinell dueddiad o wargedion dros y cyfnod o rhwng £30,000 a £40,000 y flwyddyn.
10. Mae'r polisi a fabwysiadwyd gan SFW i beidio â chodi ffioedd aelodaeth yn arian at incwm gros a ildiwyd o tua £10,000 y flwyddyn ac mae'n debyg felly nad yw'n berthnasol
11. Er bod twf yn bosibilrwydd i SFW, mae hyn yn risg sylweddol hefyd oherwydd dwyster y mewnbynnau sydd eu hangen wrth weithio gyda chwmnïau cymdeithasol.

Fel rhan o'r cwmpas gwaith y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru, gofynnwyd i ni adolygu sut mae'r cyrff a gefnogir yn cyd-fynd â pholisi ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru i'r dyfodol, a, lle'n briodol, gwneud argymhellion ynghylch cefnogaeth bellach gan Lywodraeth Cymru i'r cyrff dan sylw.

Mae'r 'agenda' Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf wedi canolbwyntio'n arbennig ar rôl mentrau cymdeithasol ym maes cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Ar yr un pryd mae'r cyfleoedd gwaith i'r unigolion hynny sydd o dan anfantais yn y farchnad lafur yn cynnwys pobl ag anableddau, problemau iechyd meddwl a chyn-droseddwyr wedi'u cyfyngu, yn arbennig mewn cyfnod o ddirwasgiad a chyni economaidd. Er bod menter gymdeithasol yn cynnig un ffordd o wneud iawn am rai o'r anfanteision a'r anghydraddoldebau hyn, i'r rheiny sydd bellaf o'r farchnad lafur draddodiadol, mae angen delio a mynd i'r afael â materion cymhleth ychwanegol.

Pwrpas cwmni cymdeithasol yw darparu amgylchedd gweithle sy'n economaidd a chymdeithasol gynaliadwy lle y gall y rheiny sydd o dan yr anfantais fwyaf yn y farchnad lafur gael eu cyflogi, eu harfogi â sgiliau a'u cefnogi. Wrth daclo'r problemau a'r anghenion hyn, mae gwaith SFW felly yn greiddiol fel ag y disgrifir yn ei ddatganiad cenhadaeth,

> ***"Tyfu'r sector Cwmnïau Cymdeithasol er mwyn cynyddu cyfleoedd gwaith i bobl ag anableddau, problemau iechyd meddwl, cyn-droseddwyr a phobl sy'n dod dros gamddefnyddio sylweddau a helpu i frwydro digartrefedd ledled Cymru."***[1]

Ar y sail hon fe ddown i'r casgliad fod gwaith Social Firms Wales yn dal i fod yn berthnasol iawn i bolisi ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru fel ag yr amlinellwyd yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae ymrwymiad i o leiaf dair blynedd o gyllid yn angenrheidiol i ganiatáu sicrhau'r ymgysylltiad tymor hir sydd ei angen ar gwmnïau cymdeithasol a sicrhau'r momentwm presennol o drafodaethau datblygu gydag awdurdodau lleol ac eraill ynghylch cwmnïau cymdeithasol posibl.

**1. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi cyllid craidd i Social Firms Wales am gyfnod pellach o 3 blynedd hyd at fis Mawrth 2016.**

---

[1] Cynllun Datblygu Busnes 2012 – 2015, Social Firms Wales, Gorffennaf 2012

Yn ystod y cyfnod hwn bydd hi'n bwysig y gall cyfle i SFW fynd ar ôl cyfleoedd creu incwm y tu allan i grantiau craidd Llywodraeth Cymru barhau, ond ni ddylai'r rhain dynnu oddi ar y gefnogaeth cwmni cymdeithasol craidd a'r cyflenwi gwasanaeth a wneir gan SFW .

**2. Wrth gytuno ar amcanion i'r dyfodol a deilliannau a dargedwyd o'i ddyfarniad grant craidd, argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru barhau i bwysleisio hyrwyddo cwmnïau cymdeithasol fel ffurf bosibl yng nghyd-destun allanoli gwasanaethau cyhoeddus ac ymhellach, y dylai Social Firms Wales barhau i gefnogi creu cwmnïau cymdeithasol newydd a hyrwyddo cynaliadwyedd cwmnïau cymdeithasol newydd.**

Ymhellach, wrth i SFW ddod yn fwy gweithredol ar draws ystod o feysydd cyflenwi gwasanaeth, bydd hi'n bwysig cael tryloywder ac eglurder ar y llinellau terfyn o fewn cyllidebau a defnydd SFW o adnoddau. Bydd hi'n bwysig nad yw enw da SFW fel cyflwynydd dibynadwy a phartner strategol ar draws ystod o feysydd yn arwain at SFW yn dod yn fan galw cyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer ystod rhy amrywiol o weithgareddau peilot a gwaith datblygu a allai arwain yn y pen draw at 'wyro'r genhadaeth'.

**3. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio'n agos yn monitro gwaith a deilliannau SFW yn rheolaidd gan ystyried yr angen am eglurder rhwng y cyflawniadau craidd a ddisgwylir oddi wrth SFW gan Lywodraeth Cymru a'r prosiectau ychwanegol, allanol y gallai SFW ymgymryd â nhw yn cynnwys y rheiny y gofynnwyd amdanynt gan adrannau Llywodraeth Cymru ond nas ymdriniwyd â hwy gan y dyfarniad cyllid craidd a'r targedau.**

Dros y cyfnod diweddar mae'r ffaith fod Social Firms Wales wedi llwyddo i gynhyrchu incwm ychwanegol, wedi arwain at gynnydd sylweddol yn yr arian datblygu a grynhowyd a allai fod ar gael i SFW ei ddyrannu. Dylai Llywodraeth Cymru felly ofyn am eglurder ynghylch polisi a bwriadau SFW a'i Fwrdd o ran dyrannu'r arian datblygu wrth gefn a grynhowyd.

**4. Ym mhob adolygiad blynyddol gyda Social Firms Wales, argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n gofyn am gadarnhad fod Bwrdd Social Firms Wales wedi trafod a mabwysiadau datganiad polisi sy'n gosod allan yn ddigonol ei fwriadau ar gyfer defnyddio'r arian wrth gefn a ddatganwyd yng nghyfrifon blynyddol archwiliedig y blynyddoedd cynt.**

Er y gallai caffael gwasanaethau cefnogol cwmnïau cymdeithasol yng Nghymru fod yn ymarferol dros y tair blynedd nesaf; ar yr adeg hon, ni chredwn fod digon o dystiolaeth yng Nghymru, o raddfa o weithgaredd o ran creu a datblygu cwmnïau cymdeithasol a fyddai'n cyfiawnhau proses gaffael agored. O ystyried yr oedi cymharol hir rhwng y trafodaethau cychwynnol â rhanddeiliaid a rheolwyr posibl a chreu cwmnïau cymdeithasol, credwn ei bod yn briodol caniatáu i Social Firms Cymru a'u haelodau a'u partneriaid yng Nghymru gyfnod arweiniol hirach i baratoi at brofi'r farchnad neu ymarfer caffael na fyddai'n wir, er enghraifft, yn achos gwasanaeth cefnogi busnes yn y brif ffrwd.

O ystyried y gwerth pendant am arian a gyflawnir ar hyn o bryd a'r rhesymau lliniarol a nodwyd, nid ydym yn ystyried fod hwn yn fater cyfredol nag yn un o frys a byddem yn argymell nad yw profi'r farchnad neu ymarfer caffael yn cael eu hystyried tan chwarter olaf 2014/15 gyda golwg, os penderfynir hynny, nad yw'n dechrau'n ddim cynt nag Ebrill 2016.

**5. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru, cyn diwedd y cyfnod cyllido nesaf, archwilio'r achos dros brofi'r farchnad, neu gaffael drwy gystadleuaeth, y gwasanaethau cefnogi uniongyrchol i ddatblygu a chynorthwyo cwmnïau cymdeithasol yng Nghymru.**

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Nodau ac amcanion

Nod y gorchwyl sy'n sail i'r adroddiad hwn yw gwneud adolygiad gwerth am arian o'r trefniadau ariannu craidd i Gwmnïau Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru a Chlymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru (WSEC).

Bydd gofyn i'r adolygiad gyfrannu at y rhesymeg dros seilio unrhyw drefniadau ariannu wedi 2012/13 drwy gynnig tystiolaeth i gefnogi penderfyniadau.

Amcanion penodol yr adolygiad[2] yw cynnal:

- Arfarniad cadarn a gwrthrychol o berfformiad y cyrff a gefnogwyd yn erbyn diffiniad gwerth am arian priodol;
- Dadansoddiad beirniadol o berfformiad y cyrff a gefnogwyd gan ddefnyddio'u cyflawniadau yn erbyn eu nodau eu hunain fel ag y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru;
- Dadansoddiad mesuradwy o'r cyrff a gefnogwyd i ganfod lefelau ychwanegedd o ganlyniad i'w trefniadau ariannu craidd; ac
- Adolygiad o sut mae'r cyrff a gefnogwyd yn cyd-fynd â pholisi ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru i'r dyfodol.

Ar gais Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd yr adolygiad mewn dau gam; i ddechrau, cynhaliwyd adolygiad o'r gwerth am arian a gafwyd gan gefnogaeth Llywodraeth Cymru i Glymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru gyda dyddiad cau derbyn yr adroddiad ar 31 Awst 2012; ac yn ail, adolygiadau gwerth am arian Cwmnïau Cymdeithasol Cymru (SFW) a Chymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru i'w cwblhau erbyn 30 Medi 2012.

Yn ychwanegol at hynny, er nad oedd yn ofyniad penodol o fanyleb y prosiect, tybiwyd, a chadarnhawyd mewn cyfarfod cychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, y byddai angen argymhellion ynghylch cefnogaeth bellach gan Lywodraeth Cymru i'r cyrff dan sylw.

***Mae'r adroddiad hwn felly yn rhoi'r dadansoddiad, y casgliadau a'r argymhellion sy'n gysylltiedig â Social Firms Wales yn unig.***

[2] Manyleb ar gyfer Adolgyiad Gwerth am Arian Trefniadau Ariannu Craidd Llywodraeth Cymru i Ddatblygu Menter Gymdeithasol, Llywodraeth Cymru BETS, Gorffennaf 2012

## 1.2 Y Gwaith a wnaed

Fel ag y gosodwyd yn y fanyleb i'r gorchwyl hwn, mae CM International wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Cleient drwy gydol yr adolygiad gan wneud cymaint o ddefnydd o'r profiad a'r wybodaeth a oedd ar gael yn barod. Hefyd, er mwyn osgoi dyblygu ymdrech, gwnaeth CM International ddefnydd llawn o'r adnoddau, y deunydd ymchwil a'r data sy'n bodoli'n barod.

Dull CM International o ymdrin â'r dasg hon oedd defnyddio methodoleg pecyn gweithio tri cham:

### 1. *Cwmpasu, adolygu dogfennau a datblygu methodoleg*

Roedd hyn yn cynnwys coladu ac adolygu dogfennau'n llawn ac at hynny nifer bychan o gyfweliadau 'cwmpasu' gyda rheolwyr prosiect a swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd y dogfennau a adolygwyd yn cynnwys adroddiadau Monitro SFW i Lywodraeth Cymru; cofnodion y Bwrdd; cyhoeddiadau ac adroddiadau a gyhoeddwyd gan Social Firms Wales.

Yn y cam hwn yn ogystal, paratowyd, profwyd a gweithredwyd rhestrau cyfweld, patrymau dadansoddi a threfniadau cyfweld strwythuredig gyda chyrff targed, aelodau'r bwrdd a rhanddeiliaid.

### 2. *Ymchwil gwerth am arian*

Adolygwyd a dadansoddwyd data SFW ac adroddiadau monitro SFW a phapurau'r Bwrdd yn erbyn amcanion a gweithgareddau'r mudiad a chyllido[3].

Holwyd y 4 aelod o Fwrdd SFW yn ystod Awst a Medi 2012. Yn ychwanegol, holwyd cynrychiolwyr o gyrff rhanddeiliad eraill, yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, WCVA, Canolfan Gydweithredol Cymru a Chymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru. Holwyd cyrff buddiolwyr a phartneriaid hefyd er mwyn cael darluniau astudiaeth achos byr ar waith ac effeithiolrwydd Social Firms Wales.

Yn olaf, holwyd Prif Swyddogion Gweithredu dau gorff tebyg perthnasol yn Lloegr a'r Alban.

Ceir rhestr lawn o bob un o'r cyfweliadau a gynhaliwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

### 3. *Dadansoddiad gwerth am arian*

Cafodd pob cyfweliad, dadansoddiad data a'r adolygiad dogfennau eu dadansoddi a'u dehongli ymhellach wrth ddod i gasgliadau ynghylch y gwerth am arian a gafwyd.

Yn arbennig, defnyddiwyd dull strwythuredig o asesu gwerth am arian sy'n defnyddio cysyniad y 3E - economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd - gan felly ganiatáu dod i gasgliad systematig a threiddgar.

## *1.3 Dull*

Mae cael gwerth am arian a deilliannau ac effeithiau amlwg o wariannau cyhoeddus yn un o egwyddorion sylfaenol gweinyddiaeth gyhoeddus. Er mwyn gallu cadarnhau hyn, mae

Llywodraeth Cymru'n adolygu ei hymrwymiadau ariannu yn rheolaidd, yn cynnwys, yn y cyd-destun hwn, i fudiadau yn y trydydd sector.

Diffinnir gwerth am arian yng Nghanllawiau'r Trysorlys[3] fel:

> *'y cyfuniad gorau posibl o gost oes gyfan ac ansawdd (neu addasrwydd i'r diben) sy'n bodloni gofyniad y defnyddiwr. Mewn geiriau eraill, cael y deilliant gorau posibl o unrhyw lefel arbennig o fewnbwn.*

Mae angen cymhwyso a dehongli'r diffiniad hwn gan sylweddoli fod gwerth am arian yn dod o ddangosyddion mesuradwy ac o enillion polisi ansoddol.

Y tu hwnt i ddeilliannau eu swyddogaethau penodol, felly, mae gan y tri mudiad sy'n destun yr adolygiad hwn rôl i'w chwarae mewn cyfrannu at bolisi ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru i'r dyfodol.

Mae cyllid craidd i'r tri mudiad sy'n destun yr adolygiad hwn yn cael ei roi yng nghyd-destun y Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol sy'n ymrwymo Llywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid i:

> *'greu amgylchedd sy'n annog mentrau cymdeithasol newydd a sefydlu cefnogaeth integredig a fydd yn help i greu mentrau cymdeithasol ffyniannus yng Nghymru.*[4]

Yn fwy diweddar, daeth amcanion yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BETS) i gymryd lle hyn fel ag y'u deilliwyd o'r Rhaglen Lywodraethu. Mae i ba raddau y mae'r tri mudiad yn cyfrannu at yr ymrwymiad hwnnw gan Lywodraeth Cymru yn ddangosydd gwerth am arian allweddol felly.

O fewn cyd-destun lle mae nifer o gyrff yn bodoli sy'n cynnig cefnogaeth i fentrau cymdeithasol a chyrff sy'n anelu at greu gweithgareddau menter gymdeithasol, caiff cefnogaeth i fenter gymdeithasol yng Nghymru ei weld weithiau fel 'ystafell orlawn'. Mae mudiadau sydd yn yr 'ystafell' hon yn cynnwys Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, y WCVA a Chanolfan Gydweithredol Cymru, yn ogystal â'r tri mudiad sydd dan sylw yn yr adolygiad hwn. Mae gan bob mudiad bwyslais a 'chynulleidfa darged' gwahanol er bod pob un yn ceisio ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ac asiantaethau a rhanddeiliaid eraill o fewn maes cyffredinol mentrau cymdeithasol a gwaith y trydydd sector.

Mae cefnogi datblygiad a thwf mudiadau a phrosiectau unigol yn rhan bwysig o swyddogaeth Social Firms Wales ochr yn ochr â gweithgareddau ehangach i alluogi seilwaith a rhwydweithio.

Bydd angen asesu gwerth am arian felly yn nhermau'r cyfraniad cyffredinol a wnaed gan y mudiadau i nodau ac amcanion Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru drwy gyflunio'n llwyddiannus eu cefnogaeth i rannu arfer gorau, codi ymwybyddiaeth a datblygu eu haelodau eu hunain gyda rôl bendant ac awdurdodol mewn cefnogi dysgu cydrhwng aelodau unigol a bod yn sail ac yn ddylanwad i bolisïau perthnasol Llywodraeth Cymru.

---

3Gwella perthnasau ariannol gyda'r trydydd sector: Canllawiau i gyllidwyr a phrynwyr, Trysorlys Ei Mawrhydi (Mai 2006)

[4] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009), Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol i Gymru 2009

# 2. Cyd-destun a chefndir

## 2.1 Cyd-destun

Yn ffurfiol, cwmni cyfyngedig drwy warant yw Social Firms Wales, a sefydlwyd yn 2005 gyda'r nod o leihau eithrio cymdeithasol ac anweithgarwch economaidd drwy gefnogi datblygiad a thwf Cwmnïau Cymdeithasol yng Nghymru.

Cwmni Cymdeithasol yw busnes a sefydlwyd yn benodol i gynnig ateb i eithrio cymdeithasol ac anweithgarwch economaidd drwy integreiddio grwpiau o dan anfantais yn y farchnad lafur.[5]

Cenhadaeth Social Firms Wales (Gorffennaf 2012),yw:

***"Tyfu'r sector Cwmni Cymdeithasol er mwyn cynyddu cyfleoedd gwaith i bobl ag anableddau, problemau iechyd meddwl, cyn-droseddwyr a phobl sy'n dod dros gamddefnyddio sylweddau a helpu i fynd i'r afael â digartrefedd ledled Cymru."***[6]

Mae datganiad cenhadaeth SFW fwy neu lai yr un fath â'r un a amlinellwyd yn wreiddiol yn y Cynllun Datblygu Busnes i Gwmnïau Cymdeithasol Cymru yn y cyfnod 2007-2010[7], ac eithrio ychwanegu yn Natganiad Cenhadaeth 2012, sylw ychwanegol ar 'gyn-droseddwyr'.

Y prif werthoedd a'r prosesau y mae SFW yn eu pwysleisio yn ei Gynllun Busnes yw – Menter, Cyflogaeth a Grymuso. Disgrifir y rhain fel a ganlyn[8]:

- ***Menter*** - *Cwmnïau Cymdeithasol yw busnesau sy'n cyfuno cyfle yn y farchnad a chenhadaeth gymdeithasol. Maent yn fusnesau sy'n cefnogi yn hytrach na phrosiectau a dim ond elfen o fasnachu ynddynt.*
- ***Cyflogaeth*** - *Mae Cwmnïau Cymdeithasol yn weithlefydd cefnogol lle mae'r amgylchedd gweithio yn un sy'n cynnig cefnogaeth, cyfle a gwaith ystyrlon i bob gweithiwr, sy'n addas i'w allu.*
- ***Grymuso*** - *Mae Cwmnïau Cymdeithasol wedi ymrwymo i integreiddiad cymdeithasol ac economaidd pobl anabl drwy waith. Un ffordd allweddol o gyrraedd y nod hon yw grymuso economaidd drwy dalu cyflog y farchnad i bob gweithiwr.*

Rheolir SFW gan fwrdd o gyfarwyddwyr ac aelodau gwirfoddol, pob un yn cymryd rhan mewn Cwmni Cymdeithasol a modelau eraill o fenter gymdeithasol neu'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl o dan anfantais. Mae'r mudiad felly wedi cynnal ei ymrwymiad, a wnaed yng Nghynllun busnes 2007-2010, i *"aros yn fach, ond yn un sy'n cefnogi newid cymdeithasol sylweddol drwy weithio gydag ystod eang o fudiadau ac asiantaethau partner".*

Mae Social Firms Wales wedi creu model gweithredu sy'n defnyddio tîm craidd bychan o staff llawn amser a gefnogir gan dîm o staff allanol rhan amser nad yw wedi'i gontractio ond sydd ar gael ar alwad. Mae'r model hwn yn galluogi SFW i reoli ei sail cost tra'n cael mynediad at ystod o sgiliau a phrofiad angenrheidiol a chynrychiolaeth ddaearyddol. Yn ychwanegol, mae'r 4 Aelod Bwrdd (yn cynnwys y Prif Weithredwr) i gyd yn cyfrannu at y gwasanaethau cefnogi a'r ymyriadau a ddarperir gan Social Firms Wales.

---

[5] Cwmni Cymdeithasol Arbenigol/Cefnogi Busnes Mentrau Cymdeithasol, Social Firms Wales, 2012
[6] Cynllun Datblygu Busnes 2012 – 2015, Social Firms Wales, Gorffennaf 2012
[7] Cynllun Datblygu Busnes 2007 – 2010, Social Firms Wales, Hydref 2007
[8] Cynllun Datblygu Busnes 2012 – 2015, Social Firms Wales, Gorffennaf 2012

Caiff datblygu rhwydwaith eang o gyrff partner ei gefnogi gan ddosbarthiad 3 haen o bartneriaid sy'n cael eu rheoli'n weithredol gan y corff fel ag y disgrifir yn y Cynllun Busnes diweddar fel a ganlyn:

- ***Partneriaid Lefel 1af** yn gweithio'n benodol yn y maes Cwmni Cymdeithasol - yn cynnwys Social Firms UK a Social Firms Scotland*
- ***Partneriaid 2il lefel** yn gweithio ym maes ehangach menter gymdeithasol - yn cynnwys Clymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru, Canolfan Gydweithredol Cymru, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, Cymdeithas Dai Cymru a'r WCVA*
- ***Partneriaid 3ydd lefel** yn gweithio i ddatblygu mentrau cymdeithasol i gyrraedd amcanion cymdeithasol, nifer ohonynt yn cael eu rhannu rhwng y gwahanol gyrff - yn cynnwys Working Links Llywodraeth Cymru, Unity Trust Bank, Big Invest, Triodos Bank, Anabledd Dysgu Cymru, Anabledd Cymru, Mencap Cymru, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, Ymddiriedolaeth Prawf Cymru, NACRO Cymru*

Gall Social Firms Wales adrodd fod ganddo grŵp o aelodau sydd 'wedi arwyddo' i'w waith ac amryw o fuddiannau aelodaeth a ddisgrifir yn ei Gynllun Busnes, ei lenyddiaeth a'i wefan. Ar ddiwedd Gorffennaf 2012, roedd gan SFW 76 o aelodau a oedd yn cynnwys 44 o aelodau Llawn; 6 aelod Sector Cyhoeddus; 24 aelod Cysylltiol a 2 aelod Corfforaethol.

Fodd bynnag, ni chodir ffi i fod yn aelod o SFW. Caiff gwerth yr aelodau i SFW ei ddisgrifio fel a ganlyn: *"Nid yn y £oedd y mae gwerth yr aelodaeth ond yn yr aelodau eu hunain."*[9]

Mae SFW yn disgrifio'i wasanaethau o dan dri phennawd bras - Ymgynghoriaeth; Adnoddau a Phartneriaethau.

O fewn Ymgynghoriaeth mae'r prif sylw hefyd ar dri maes gwaith - Dichonoldeb Masnachol; Cynllun Busnes Masnachol a chefnogaeth Busnes Craidd. Ym mhob un o'r meysydd gwaith hyn rhoddir y pwyslais ar sicrhau fod y cwmnïau cymdeithasol sy'n dechrau ac yn datblygu yn gallu dangos hyfywedd masnachol yn eu rhinwedd eu hunain ac, o ganlyniad, cyflwyno i'w cymunedau a'u buddiolwyr targed werthoedd a phrosesau allweddol menter, cyflogaeth a grymuso.

Mae aelodau Bwrdd SFW, yn cynnwys y Prif Weithredwr, yn bendant yn eu safiad fod yr ymrwymiad i gyflwyno gwaith drwy brosiectau ac ymgysylltiadau unigol gyda chwmnïau cymdeithasol hen a newydd yn creu cydbwysedd hanfodol i'r materion ehangach o godi ymwybyddiaeth, eiriolaeth a gwaith polisi sy'n cael eu hymgorffori o fewn y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff partner eraill.

## 2.2 Dyfarnu Grant ac Amcanion Llywodraeth Cymru

Mae amcanion meintiol craidd y Dyfarniad Grant a wnaed gan Lywodraeth Cymru i Social Firms Wales yn ei lythyr Dyfarnu Grant gwreiddiol ar gyfer 2008 - 2011, a'r newidiadau dilynol a wnaed yn y Dyfarniadau Grant ychwanegol ar gyfer 2011/12 a 2012/13, wedi bod fwy neu lai yn gyson.

1. *Datblygu dwy bartneriaeth newid cymdeithasol mewn dwy ardal llywodraeth leol; (yn ogystal ag 1 bartneriaeth newid cymdeithasol ychwanegol a ddatblygir yn 2011/12 ac yn 2012/13)*

[9] Cynllun Datblygu Busnes 2012 – 2015, Social Firms Wales, Gorffennaf 2012

2. *Cefnogi datblygu naw cwmni cymdeithasol/busnes a gefnogir yng Nghymru; (yn ogystal ag 1 cwmni cymdeithasol ychwanegol a gefnogir yn 2011/12 ac yn 2012/13)*
3. *Creu pum cwmni/busnes cymdeithasol gyda rhagolygon tymor hir; (yn ogystal ag 1 cwmni cymdeithasol a grëir yn 2011/12 ac yn 2012/13)*

Yn y cyfnod cychwynnol a oedd yn ymdrin â 2008 – 2011, cytunwyd hefyd ar yr amcanion canlynol a oedd yn gysylltiedig â chodi ymwybyddiaeth:

4. *Gweithio gyda rhwydwaith Amrywiaeth a Chyflogaeth Llywodraeth Cymru ar draws Cymru i sicrhau fod Cwmnïau Cymdeithasol a chyflogwyr Prif ffrwd yn cael eu haddysgu a bod ganddynt bolisïau gweithwyr priodol yn eu lle;*
5. *Cyflwyno pedwar gweithdy'r flwyddyn i gefnogi datblygu amgylchedd gwaith cefnogol;*
6. *Codi ymwybyddiaeth am gwmnïau cymdeithasol a hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth ledled Cymru a rhoi cefnogaeth sector arbenigol priodol.*

Yn 2010 comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o nifer o fudiadau seilwaith mentrau cymdeithasol yn cynnwys Social Firms Wales. Daeth yr Adolygiad i gasgliad cadarnhaol am Social Firms Wales ond argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru chwilio am fwy o ffocws yng ngweithgareddau SFW a ariennir o dan y Dyfarniad Grant ar ei weithgarwch *"bod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo a datblygu'r model allanoli ac wrth gefnogi creu cwmnïau cymdeithasol newydd".* [10]

Ymhellach, argymhellodd yr Adolygiad fod Llywodraeth Cymru'n cynnwys amcan i SFW gynyddu ei ymdrechion i gynhyrchu incwm ymgynghoriaeth er mwyn dod yn llai dibynnol ar arian grant Llywodraeth Cymru gan nodi y byddai hyn yn dod â SFW yn fwy unol â'i gymheiriaid mewn rhannau eraill o'r DU.

Yn dilyn yr Adolygiad, newidiodd llythyrau Dyfarniad Grant SFW ar gyfer 2011/12 ac ar gyfer 2012/2013, yr amcanion diwethaf (4-6) am 4 amcan newydd neu rai a addaswyd yn sylweddol (4-7):

4. *Codi ymwybyddiaeth o'r broses Mecanwaith Arwahanu i gyrff yng nghamau cyntaf datblygu prosiect, gan amlygu a datblygu elfen fasnachol tuag at statws Cwmni Cymdeithasol.*
5. *Cynnal 1 digwyddiad Cymru gyfan i ddwyn ynghyd aelodau Social Firms Cymru, y rheiny sydd â diddordeb mewn Cwmnïau Cymdeithasol a menter gymdeithasol, partneriaid cenedlaethol, cyrff cefnogi busnes a'r sector preifat i rannu gwybodaeth, cyfleoedd, heriau ac arfer gorau*
6. *Bydd SFW yn cymryd rhan yn, ac yn cyfrannu at, ddarparu cyngor polisi ar lefel strategol, a, lle y teimla'n bod yn briodol gwneud hynny, yn cefnogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni ei hamcanion poilsi sy'n gysylltiedig â Chwmnïau Cymdeithasol.*
7. *Bydd SFW yn ysgogi cyllid ychwanegol ar gyfer gwaith i hyrwyddo a datblygu Cwmnïau Cymdeithasol/Busnesau a Gefnogir yng Nghymru.*

[10] Adolygiad o Gefnogaeth a Ariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i Ddatblygu Mentrau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Mawrth 2011

O dan bob un o'r prif amcanion hyn, cytunodd Llywodraeth Cymru ymhellach â SFW ar nifer o is-amcanion a fwriadwyd fel amcanion gweithredol.

Dangosir model rhesymeg sy'n dangos sut mae SFW yn cyflenwi ei weithgareddau o dan Ddyfarniad Grant Llywodraeth Cymru yn Atodiad 2 a cheir y Rhestrau targedu manwl yn Atodiad 3.

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gefnogi cyllid craidd SFW i gyfanswm o £499,973 dros y pum mlynedd lawn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 2008/09 | £79,913 |
| 2009/10 | £102,771 |
| 2010/11 | £105,763 |
| 2011/12 | £105,763 |
| 2012/13 | £105,763 |

# 3. Adolygiad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Social Firms Wales

Dyma eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn yr adolygiad hwn:

- **Economi** - cwestiynau am union gost y gweithgareddau yn cynnwys, faint gostiodd yr ymyriad; sut y penderfynwyd ar hyn; a ddefnyddiwyd yr arian ar gyfer y gweithgareddau a nodwyd a, pa gyllid ychwanegol a ysgogwyd?
- **Effeithlonrwydd** - yn ystyried a gyflwynwyd y gweithgareddau yn unol â'r disgwyliadau yn cynnwys, a gyflwynwyd y gweithgareddau a ariannwyd yn unol â'r cynllun; pa weithgareddau ychwanegol a gyflwynwyd; a oedd cost y cyflwyno yn ôl y disgwyl a, sut cafodd effeithlonrwydd ei fesur a'i fonitro?
- **Effeithiolrwydd** - yn rhoi'r sylw ar ddeilliannau megis, a arweiniodd y gweithgareddau a ariannwyd at y canlyniadau neu'r deilliannau disgwyliedig; pa ddeilliannau ychwanegol a gafwyd; os o gwbl; a, sut yr uchafwyd yr effeithiolrwydd?

## 3.1 Economi

Mae'r pennawd hwn yn gofyn cwestiynau am union gost y gweithgareddau yn cynnwys, faint gostiodd yr ymyriad; sut y penderfynwyd ar hyn; a ddefnyddiwyd yr arian ar gyfer y gweithgareddau a nodwyd a, pa gyllid ychwanegol a ysgogwyd ?


Mae CM International wedi adolygu'r cyfrifon a'r cyllidebau a gynhyrchwyd gan weithrediaeth SFW ac a gyflwynwyd fel rhan o drefniadau monitro arferol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw CM International wedi cynnal archwiliad neu brofion cyfrifo yn seiliedig ar yr wybodaeth hon.

O safbwynt Llywodraeth Cymru, mae ei hymyriad fel ag y cyllidebwyd yn y tri llythyr Dyfarniad Grant sy'n ymdrin â'r cyfnod hwn, h.y. cyfanswm o bron i £500,000 (£499,973) dros y cyfnod 5 mlynedd o 2008 i 2013. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn monitro cynnydd gwariant yn erbyn y gyllideb yn rheolaidd drwy gydol y cyfnod ers y Dyfarniad Grant, ac, yn seiliedig ar yr adolygiad pen desg a gynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad hwn, ni welir unrhyw wyro mawr o linellau ac eitemau'r gyllideb ddisgwyliedig.

Mae'r cyllidebau a gynigiwyd gan SFW ac a drafodwyd gyda Llywodraeth Cymru yn dangos ymlyniad cryf i osod cyllidebau sy'n ddarbodus. Mae adolygiad bras o'r cyfrifon archwiliedig a baratowyd ar ran SFW hefyd yn dangos fod y corff wedi bod yn ddarbodus wrth reoli'i adnoddau.

Fel ag y dangosir yn y ffigur isod, mae trywydd costau gweinyddu'r sefydliad a'r dyraniad adnoddau rhwng cyflog y Cyfarwyddwr, cyflogau a gorbenion eraill yn dangos nad oes unrhyw wyriadau annisgwyl neu lym. Fel ag y disgwylid, mae mwyafrif y costau yn gysylltiedig â chyflogi staff allweddol.

*Ffigur 1.* ***Costau gweinyddol a wynebwyd gan Social Firms Wales 2007 - 2012***




| | 2007/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 |
|---|---|---|---|---|
| Costau eraill | £29,390 | £27,715 | £36,673 | £38,391 |
| Cyflogau ayb | £10,504 | £38,200 | £46,395 | £75,261 |
| Costau'r Cyfarwyddwr | £44,636 | £32,800 | £33,784 | £35,135 |

Fel ag y dangosir, yn y cyfnod sefydlu cychwynnol o ran Dyfarniad Grant Llywodraeth Cymru, roedd treuliau'r Cyfarwyddwyr yn cyfrif am ran helaethaf y cyfanswm gwariant gyda chyflogau aelodau eraill o'r staff yn cyfrif am gyfran fwy sylweddol yn ail flwyddyn cyflenwi targedau Llywodraeth Cymru hyd at fis Mawrth 2010.

Drwyddi draw, mae gwariant wedi tyfu'n raddol ac fel y disgwylid gyda naid yn y cynnydd blwyddyn ar ôl blwyddyn o 2010/11 i 2011/12 er mwyn gallu cynnal y prosiectau ymgynghoriaeth ychwanegol a wnaed yn y flwyddyn honno.

*Ffigur 2.* ***Y cynnydd mewn costau Gweinyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn***

| | **Gwir 2007/09** | **Gwir 2009/10** | **Gwir 2010/11** | **Gwir 2011/12** | **Cyllideb 2012/13** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynnydd blwyddyn ar ôl blwyddyn fel %** | - | 17% | 18% | 27% | 27% |

Dengys y cyfrifon archwiliedig hefyd fod dyfarniad grant Llywodraeth Cymru wedi amrywio fel cyfran o gyfanswm incwm SFW dros y cyfnod o 2008.

Mae'r gyfran wedi amrywio rhwng 83% yn 2009/10 i 47% yn y flwyddyn lawn ddiwethaf a gwblhawyd, sef 2010/11. Ym mlwyddyn gyfredol 2012/13 disgwylir i'r % aros ychydig yn is na 50% er y bydd hefyd incwm prosiect ychwanegol ac ar wahân a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru o £50,000 am brosiect Gofal [11]. Yn y flwyddyn gyfredol, bydd yr incwm hwn yn mynd â ***chyfanswm*** cyllid Llywodraeth Cymru (craidd a phrosiect) i SFW i ychydig dros 70%. Deallwn fod y prosiect ychwanegol wedi cael ei drafod yn llawn ac yn wir wedi

[11] Mae hyn yn ymwneud ag astudiaeth ddichonoldeb a phrosiect peilot yn gysylltiedig â datblygu modelau Gofal i fenywod sy'n dychwelyd i'r gweithle wedi cyfnod o fagu plant yn llawn amser.


cael cefnogaeth Llywodraeth Cymru o ystyried gallu unigryw SFW i gyflenwi a'i enw da yn y maes gweithgarwch hwn.

Un argymhelliad allweddol a wnaed yn Adolygiad cynharach SFW oedd y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys amcan yn ei ddyfarniad grant gyda SFW i gynyddu incwm ymgynghoriaeth er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar gyllid Llywodraeth Cymru. Dilynwyd yr argymhelliad hwn gan amcan penodol wedyn yn llythyrau dyfarniad Grant 2011/12 a 2012/13 fel a ganlyn:

> 7. *Bydd SFW yn ysgogi cyllid ychwanegol ar gyfer gwaith i hyrwyddo a datblygu Cwmnïau Cymdeithasol/Busnesau a Gefnogir yng Nghymru.*

Dengys cyfrifon SFW iddo gael cryn lwyddiant mewn mynd i'r afael â'r amcan hwn fel y gwelir yn y crynodeb incwm yn Nhabl 1 isod:

***Ffigur 3. Ffynonellau Incwm Social Firms Wales 2008 - 2013***




| | 2007/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|
| Incwm arall | £4,944 | £230 | £680 | £1,132 | £50,000 |
| Dyfarniad grant LIC | £68,571 | £111,927 | £105,763 | £105,763 | £105,000 |
| Incwm ymgynghoriaeth | £44,630 | £22,536 | £29,637 | £119,723 | £62,000 |

Fel y gwelir roedd ffynonellau Incwm Ymgynghoriaeth ac Arall wedi disgyn i ychydig dros £30,000 neu 23% o gyfanswm yr incwm yn 2010/11, ond, yn dilyn Adolygiad 2011, adferwyd hyn i 53% yn 2011/12 a rhagwelir y bydd yn aros ar ychydig dros 50% yn y flwyddyn gyfredol pan fydd effaith incwm ar wahân prosiect Gofal Llywodraeth Cymru'n cael ei ystyried hefyd.

Deallwn fod y cynnydd sylweddol mewn incwm ymgynghoriaeth a gafwyd yn 2011/12 yn bennaf yn ganlyniad i un contract[12] pan ddaeth ffocws ehangach Cenhadaeth SFW i gynnwys cyn-droseddwyr fel grŵp targed i rym. Roedd y cysylltiad â phrosiect *Working Links* NOMS yng Nghymru yn ehangu tebygol pwysig ar hyd a lled a graddfa gweithgareddau SFW yng Nghymru. Yn ôl y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, disgwylir i hwn gynnig ystod o gyfleoedd arloesol ac effeithiol am waith pellach gyda'r model cwmni cymdeithasol mewn grwpiau buddiolwyr llai traddodiadol.


Un o ganlyniadau cynyddu swm yr incwm ymgynghoriaeth yn y blynyddoedd diwethaf yw bod SFW wedi dechrau crynhoi gwargedion sylweddol bob blwyddyn ac erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol, disgwylir i'r rhain dod i oddeutu £177,000. Yng nghyfrifon archwiliedig SFW, mae'r gwargedion a'r cronfeydd wrth gefn wedi'u nodi'n gywir, nid fel elw, ond fel Cronfeydd Datblygu Dynodedig.

Gwelir patrwm y gwargedion a'r cronfeydd wrth gefn a grynhowyd yn y ffigur canlynol:

---

[12] Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr – Working Links

***Ffigur 4 .*** ***Gwargedion a Chronfeydd Wrth Gefn Social Firms Wales 2008 - 2013***




Fel y gwelir, mae llinell dueddiad y gwarged yn gosod SFW ar rhwng £30,000 a £40,000 o warged ym mhob un o'r blynyddoedd o dan sylw.

Yn amlwg, dylid canmol Bwrdd a rheolaeth SFW am eu stiwardiaeth mewn cyfnod o gyni ariannol ac economaidd. Fodd bynnag, mae'n hanfodol fod yr arian wrth gefn yn cael ei ddynodi ar gyfer datblygu dibenion a gwaith y mudiad ymhellach. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried mai prif ffynhonnell cyllido'r mudiad oedd dyfarniad grant cyhoeddus.


Rydym yn ymwybodol fod Bwrdd SFW wedi bod yn trafod yn ddiweddar y materion o ddynodi'r gwargedion yn briodol fel ag y dangosir yn y darn canlynol o Gofnodion y Bwrdd ym mis Hydref 2011.

> *"o safbwynt Llywodraeth Ganolog gwelir cronfeydd cryf wrth gefn fel rhywbeth cadarnhaol ac maent yn adlewyrchu sut yr ystyrir cwmni wrth gaffael gwaith ganddo.*
>
> *Gweithredu: Ail-ymweld â'r Polisi Arian Wrth Gefn a'i adnewyddu os yn briodol."*[13]

Ar sail flynyddol, mae i ba raddau y cynhyrchwyd gwarged o'i gymharu â swm dyfarniad cyllid craidd Llywodraeth Cymru yn pwysleisio sensitifrwydd y mater hwn.

[13] Darn o Gofnodion Bwrdd Social Firms Wales 26 Hydref 2011

*Ffigur 5. Gwarged blynyddol SFW fel % o ddyfarniad grant Llywodraeth Cymru*




Ar gyfartaledd, dros y cyfnod cyllido, ychydig dros 30% o Grant Llywodraeth Cymru a grynhowyd fel gwarged ar gyfer datblygiadau a gweithgareddau SFW yn y dyfodol. ***Mae'n bwysig nad yw'r pwynt hwn yn cael ei gamddehongli***.

Mae creu mudiad cynaliadwy ac annibynnol i gefnogi seilwaith mentrau cymdeithasol yn amcan pwysig o bolisi a blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Mae'r amcanion a osodwyd i SFW dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn arbennig wedi gofyn am weithredu gan SFW i geisio ffrydiau incwm ychwanegol ac annibynnol o waith a phrosiectau nad ydynt yn cael arian craidd; amcan y mae SFW yn amlwg wedi cymryd camau bras tuag at ei gyflawni. Byddai'n anffodus felly pe bai unrhyw bryderon neu gam-ddarllen y cronfeydd a grynhowyd yn cael ei ddal yn erbyn y mudiad. Yn hytrach, dylai fod yn fater o arfer da a thryloywder mewn rheoli arian cyhoeddus fod y polisi a fabwysiadwyd gan Fwrdd SFW tuag at drin a dynodi gwargedion ac arian wrth gefn yn cael ei drafod a'i gydnabod gan Lywodraeth Cymru fel rhan o unrhyw drafodaethau ar gyllid craidd yn y dyfodol.

Ail brif faes i'w archwilio o dan y pennawd 'economi' yw rôl ffioedd aelodaeth posibl i gefnogi cynaliadwyedd SFW. Fel ag y disgrifiwyd yn gynt yn yr adolygiad (adran 2.1), mae SFW yn recriwtio aelodau o amrywiaeth o gategorïau gwahanol. Ym mis Gorffennaf 2012, roedd cyfanswm o 76 o aelodau a oedd yn cynnwys 44 o aelodau Llawn; 6 aelod Sector Cyhoeddus; 24 aelod Cysylltiol a 2 aelod corfforaethol. Fodd bynnag, ni chodir tâl i fod yn aelod o SFW gyda gwerth aelodau i'r mudiad yn cael ei ddisgrifio fel hyn: *"Nid yn y £oedd y mae gwerth yr aelodaeth ond yn yr aelodau eu hunain."*[14]

Roedd SFW yn codi tâl aelodaeth i ddechrau ond, yn ôl y Prif Weithredwr, *"nid oedd y Bwrdd yn teimlo'n gyffyrddus fod y cynnyrch oedd ar gynnig yn ddigon cryf"*. Mae hyn yn bennaf yn ganlyniad i ragfarn dybiedig tuag at ffocws polisi yn y cyd-destun Prydeinig yn hytrach na hanfodion y sefyllfa yng Nghymru.

Mewn cymhariaeth, mae Social Firms UK a Social Firms Scotland yn codi tâl aelodaeth, sef tua £90 - £135 y flwyddyn. Yn ychwanegol at fuddiannau cyffredinol i'r aelodau, mae'n

[14] Cynllun Datblygu Busnes 2012 – 2015, Social Firms Wales, Gorffennaf 2012

ymddangos fod Social Firms Scotland hefyd yn cynnig nifer penodol o oriau o gymorth ym mhris yr aelodaeth (sy'n £50 i'r rhai nad ydynt yn aelodau) ac mae SF UK yn cynnig pecyn cymorth dichonoldeb i aelodau a fyddai'n costau £90 fel arall i'r rhai nad ydynt yn aelodau. (Gweler Atodiad 5)

O ystyried nifer tebygol yr aelodau a fyddai ar gael i SFW a maint cymharol fychan ffi aelodaeth gystadleuol, mae'r polisi a fabwysiadwyd gan SFW o beidio â chodi yn arwain at incwm gros a ildiwyd o oddeutu £10,000 y flwyddyn [15] ar y mwyaf a thipyn yn llai o bosibl os yw barn Bwrdd SFW nad yw'r cynnig uniongyrchol i aelodau yn ddigon cryf, yn gywir. Byddai'n wir hefyd y byddai rheoli'r aelodaeth a darparu'r gwasanaeth yn gofyn am adnoddau staff ychwanegol a sylw'r rheolwyr a gallai hyn arwain at golled net i SFW am godi tâl. Mae'n debyg felly nad yw'r incwm net a ildiwyd yn ddigon sylweddol ar gyfer yr adolygiad hwn.

## 3.2 Effeithlonrwydd

Mae effeithlonrwydd yn ystyried a gyflwynwyd y gweithgareddau yn unol â'r disgwyliadau yn cynnwys, a gyflwynwyd y gweithgareddau a ariannwyd yn unol â'r cynllun; pa weithgareddau ychwanegol a gyflwynwyd; a oedd cost y cyflwyno yn ôl y disgwyl a, sut cafodd effeithlonrwydd ei fesur a'i fonitro?

Roedd gan Social Firms Wales y fantais o restr o amcanion a dangosyddion perfformiad a thargedau cysylltiedig a osodwyd allan yn y llythyr Dyfarniad Grant a'r atodlenni fel ag y'u disgrifiwyd yn adran 2.2 uchod. Caiff y rhestr targedau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru eu crynhoi yn Atodiad 3.

Yn Atodiad 4 dangosir perfformiad SFW hyd yma ochr yn ochr â phob un o'r dangosyddion perfformiad cyfredol (2011-2013).

Bu staff Llywodraeth Cymru yn monitro perfformiad a gweithgareddau Social Firms Wales yn unol â'r dangosyddion hyn, gan dderbyn adroddiadau Monitro chwarterol rheolaidd a chyfarfod â'r Prif Weithredwr nifer o weithiau. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r trafodaethau a fu rhwng SFW a Llywodraeth Cymru fel rhan o'r cyfarfodydd monitro rheolaidd lle y trafodwyd natur a manylion y targedau a'r dangosyddion deilliant.

Wrth adolygu perfformiad SFW yn erbyn y targedau a'r dangosyddion y cytunwyd arnynt, daethom i'r casgliad y gwelwyd lefel uchel o gyflawniad a chynnydd yn erbyn y rhan fwyaf o'r prif feysydd gweithgaredd. Mae SFW hefyd wedi ceisio adrodd yn ôl yn gyson ar ei weithgareddau yn erbyn yr amcanion a'r deilliannau a dargedwyd.

Mae'n bwysig nodi serch hynny fod yr amser a gymerwyd i gyflawni nifer o'r targedau pwysicaf, er enghraifft, sy'n ymwneud â sefydlu a chreu cwmnïau cymdeithasol newydd cynaliadwy, yn ei gwneud yn anodd dod i gasgliadau clir yn erbyn rhai agweddau ar berfformiad. Yn wir, nid yw nifer ac ystod y cysylltiadau a'r canlyniadau a gafwyd gan SFW gyda darpar gwmnïau cymdeithasol a rhai sy'n bodoli'n barod, yn cael ei weld gan SFW fel un o'i brif ddangosyddion perfformiad. Y ddadl yw mai dim ond mesur gweithgaredd mae hwn ac nid yw'n cipio'r dysgu a'r datblygu gallu sy'n digwydd drwy gysylltiadau a thrafodaethau cyfnod cynnar, hyd yn oed pan benderfynir nad cwmni cymdeithasol newydd yw'r ffordd i fynd.

Yr ***Amcan 1af*** oedd sefydlu partneriaethau newid cymdeithasol, i ddechrau 2 mewn tair blynedd, ac yna 1 ychwanegol ym mhob un o'r ddwy flynedd nesaf sy'n dod o dan y

---

[15] Gan dybio 100 o aelodau ar gyfartaledd o £100 y tanysgrifiad

dyfarniadau Grant (2008 - 13). Mae'r Adroddiadau Monitro a'r Adroddiadau Blynyddol a ddarparwyd gan SFW yn dangos, hyd at fis Awst 2012, fod 5 partneriaeth gymdeithasol o'r fath wedi'u sefydlu yn Sir Ddinbych, Powys, Casnewydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir y Fflint a bod gwaith yn mynd rhagddo mewn ardaloedd eraill, felly'n mynd y tu hwnt i'r targed.

Cofnodwyd llwyddiant pellach yn erbyn yr ***2il Amcan***, sef rhoi cyngor a chefnogaeth i gyfanswm o 11 o gwmnïau cymdeithasol dros gyfnod 5 mlynedd y dyfarniad grant. Yma dengys adroddiadau Monitro SFW fod cynifer ag 84 cwmni cymdeithasol wedi cael cyngor i ryw raddau. Caiff y pwyslais a roddir gan SFW ar ddarparu cefnogaeth drylwyr ei ddarlunio gan yr 14 enghraifft benodol o gefnogaeth drylwyr a roddwyd i gwmnïau cymdeithasol a hynny'n gysylltiedig â gweithgareddau a oedd yn digwydd ar draws daearyddiaeth a chymunedau Cymru o Ynys Môn i Lannau Dyfrdwy ac o Sir Benfro i Flaenau Gwent. Mae'r ystod hwn sy'n gorchuddio Cymru yn dangos y llwyddiant a'r sensitifrwydd i'r angen i ddarparu gwasanaeth cefnogi Cymru gyfan wrth ddefnyddio dyfarniadau grant Llywodraeth Cymru.

Caiff nifer o'r cwmnïau cymdeithasol yr adroddir amdanynt o dan yr Amcan i roi cefnogaeth i gwmnïau cymdeithasol sydd wedi'u sefydlu eu hamlygu fel llwyddiannau wrth gyflawni'r ***3ydd Amcan***, sef cefnogi creu hyd at 7 cwmni cymdeithasol newydd *"sydd â'r potensial i fodoli y tu hwnt i'r cyfnod cyllido cychwynnol"*. Mae dadansoddiad o'r Adroddiadau Monitro yn awgrymu unwaith eto fod yr amcan a'r targed hwn wedi eu pasio gyda 9 cwmni cymdeithasol yn cael eu nodi'n benodol yn yr Adroddiadau Monitro.

Roedd y ***4ydd Amcan***, sef *"Codi ymwybyddiaeth o'r broses Mecanwaith Arwahanu i gyrff yng nghamau cyntaf datblygu prosiect, gan amlygu a datblygu elfen fasnachol tuag at statws Cwmni Cymdeithasol"* yn dod yn lle amcan cynharach, tebyg, a oedd yn ymwneud â'r syniad o godi ymwybyddiaeth o allanoli fel opsiwn ar gyfer delio â chyflenwi gwasanaeth cyhoeddus a'r cyfle i ddefnyddio cwmnïau cymdeithasol yn effeithiol wrth geisio allanoli. Cafodd y cysyniad newydd o fodel arwahanu ei gyflwyno gan SFW fel ffordd o hoelio sylw ar y broses o newid a datblygu cyfleoedd cwmni cymdeithasol yn hytrach na sylw ar ba mor ddymunol oedd allanoli gwasanaethau fel dull o gyflenwi gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn ynddo'i hun, yn dangos y cyfraniad arbennig a wnaed gan SFW wrth ffurfio a datblygu'r drafodaeth a'r agenda o amgylch datblygiad a chyfleoedd cwmni cymdeithasol yng Nghymru.

> Dengys yr adroddiadau monitro i gyflwyniadau ar y pwnc hwn gael eu gwneud ar o leiaf 18 o achlysuron yn y ddwy flynedd a hanner diwethaf. Fodd bynnag, wrth i'r agenda diwygio gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ddatblygu, datblygodd ffocws yr Amcan yn gyfarfodydd mwy manwl gydag awdurdodau lleol yn hytrach na chyflawni drwy gyflwyniadau neu ymgyrchu. Erbyn mis Gorffennaf 2012, gallai Prif Weithredwr SFW adrodd fod *"Yr amcan hwn yn rhan o lawer o sgyrsiau a chyfarfodydd a'i fod yn prysur ddod yn rhywbeth arferol mewn perthynas â'r holl gyflenwi y cytunwyd arno gan SFW.*[16] *"* Mewn geiriau eraill, mae Amcan a osodwyd fel blaenoriaeth wedi dod yn rhan o'r brif ffrwd erbyn hyn.

***Amcanion 5 a 6*** a oedd yn ymwneud â threfnu digwyddiad proffil uchel a darparu cyngor polisi ar lefel strategol fu'r rhai mwyaf heriol i adrodd yn eu herbyn. Er enghraifft, gohiriwyd Cyfarfod Blynyddol proffil uchel SFW gyda phresenoldeb Gweinidog a lefel uchel o randdeiliaid yn mynychu oherwydd amgylchiadau'r cwmni cymdeithasol oedd yn ei letya. Yn ychwanegol, mae nifer o'r mewnbynnau polisi a wnaed gan SFW wedi bod mewn

[16] Adroddiad Monitro Gorffennaf 2012

cyfarfodydd a digwyddiadau i randdeiliaid yn hytrach na drwy ddogfennau copi caled a mewnbynnau polisi ffurfiol.

O edrych arnynt yn arwynebol, byddai'r adroddiadau Monitro'n awgrymu, o ganlyniad i'r oedi a'r amgylchiadau hyn, nad yw'r amcanion hyn wedi cael eu bodloni yr un mor bendant ac eglur â'r amcanion eraill y cyfeiriwyd atynt uchod. Fodd bynnag, yn y cyfweliadau a gynhaliwyd ar gyfer yr adolygiad hwn ni chafwyd argraffiadau negyddol am y mewnbynnau polisi a wnaed gan SFW gan swyddogion Llywodraeth Cymru na chwaith gan bartneriaid a rhanddeiliaid eraill .

Mae'n hymchwiliadau ni'n awgrymu fod hyn yn ganlyniad i ddau ffactor sy'n gysylltiedig â'i gilydd. I ddechrau, fod gwaith SFW yn cael ei weld gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn fwy yn nhermau cyflwyno ac ymarferol nag yn nhermau datblygu polisi - gweithredu yn hytrach na geiriau. Yn ail, fod y cyfraniadau a wnaed gan dîm a Bwrdd SFW mewn sefyllfaoedd real ac mewn cyfarfodydd lle mae materion sensitif yn cael eu hystyried (e.e. trafodaethau Remploy) o'r fath fel mae'r argraff gyffredinol yw mewnbwn strategol yn cael ei wneud mewn amser go iawn.

> Mae'r Amcan olaf, ***Amcan 7***, i SFW ysgogi cyllid ychwanegol er mwyn hyrwyddo a datblygu Cwmnïau Cymdeithasol a busnesau a gefnogir yng Nghymru, hefyd wedi cael ei fodloni'n effeithlon. Fel ag y trafodwyd yn adran gynharach yr adroddiad, mae'n amlwg, yn dilyn Adolygiad 2011, fod targedau wedi'u gosod fel bod *"Yr incwm a enillir yn helpu'r mudiad i gymryd camau tuag at annibyniaeth ariannol, a datblygu mwy o arian parod wrth gefn* [17]. Bu lefel y cyrhaeddiad gymaint fel yn 2011/12, roedd yr incwm a enillwyd yn fwy na'r hyn a ddarparwyd drwy Ddyfarniad Grant Llywodraeth Cymru o ryw 10%.

Fel ag y nodwyd ynghynt, mae angen bellach rhoi sylw at symud at gymryd camau tryloyw i ddyrannu arian wrth gefn ar gyfer datblygiadau pellach mewn ffordd briodol a darbodus.

Mesur olaf effeithlonrwydd yma yw i ba raddau y gallodd y mudiad ysgwyddo a datblygu gweithgareddau a chynlluniau newydd neu ychwanegol.

Yn achos SFW, mae graddau'r cyllid a ysgogwyd yn ychwanegol yn arwydd da o wytnwch, menter a hyblygrwydd y mudiad. Yn yr un modd, mae datblygu'r gweithgareddau hynny mewn meysydd nad oeddent yn rhai craidd o'r blaen yn cynnwys gweithio gyda chyn-droseddwyr, ac yn fwy diweddar, datblygu cynllun peilot i weithio gyda menywod sy'n dychwelyd i'r gweithle wedi cyfnod o fagu plant yn llawn amser, yn dangos parodrwydd a gallu i fod yn arloesol ac i wneud y mwyaf o gyfleoedd.

Oherwydd bod nifer o brosiectau a wneir gan SFW nas ariennir gan Lywodraeth Cymru yn sensitif a chyfrinachol, rydym yn ymwybodol hefyd fod yr adroddiadau Monitro a ddarperir gan SFW o dan ei Ddyfarniad Grant Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am y gweithgarwch yn unig. Ni allant ddisgrifio neu drafod y gweithgarwch hwnnw yn llawn. Mewn sawl ffordd felly mae'n bosibl nad yw graddfa lawn datblygu prosiectau a gweithgareddau ychwanegol yn hollol weladwy a thryloyw i Lywodraeth Cymru. Serch hynny, maent yn hynod o berthnasol i amcanion cyffredinol Llywodraeth Cymru gan eu bod yn cynnig amgylchedd cynhaliol i fudiadau seilwaith mentrau cymdeithasol yng Nghymru.

---

[17] Atodlen i lythyr Dyfarniad Grant Llywodraeth Cymru dyddiedig 15 Mai 2012

## 3.3 Effethiolrwydd

Mae effeithiolrwydd yn rhoi'r sylw ar ddeilliannau megis, a arweiniodd y gweithgareddau a ariannwyd at y canlyniadau neu'r deilliannau disgwyliedig; pa ddeilliannau ychwanegol a gafwyd; os o gwbl; a, sut yr uchafwyd yr effeithiolrwydd?

Gall yr atebion i gwestiynau am effeithiolrwydd orgyffwrdd â'r rhai am effeithlonrwydd. Fodd bynnag, yma rydym wedi ystyried y canfyddiadau a'r ymatebion a dderbyniom o'n hymchwil ansoddol a gafwyd yn y cyfweliadau strwythuredig â rhanddeiliaid, partneriaid ac aelodau Bwrdd SFW, yn ogystal â chyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru.

I ddechrau, mae'r corff yn amlwg ac yn benodol yn canolbwyntio ar **gyflenwi gwasanaethau** i gwmnïau cymdeithasol hen a newydd, y cymunedau a'r grwpiau sy'n cael eu gwasanaethu gan y cwmnïau cymdeithasol a'r partneriaid a'r rhanddeiliaid sy'n eu cefnogi. Roedd Cadeirydd SFW, Martin Price yn hyderus a chlir ar y pwynt hwn, *"Mae'r cyllid craidd yn mynd tuag at gyflenwi gwasanaethau i aelodau"*

Cadarnhawyd effeithiolrwydd y ffocws hwn gan adolygiad o'r adroddiadau monitro a'r dangosyddion perfformiad yn ogystal â chan sylwadau nifer o'r rhai a gafodd eu cyfweld. Er enghraifft, roedd un cynrychiolydd rhanddeiliaid a holwyd yn gweld fod SFW yn *"Canolbwyntio'n fawr ar gyflenwi deilliannau cyffyrddadwy, o bosibl y mwyaf effeithlon yn y sector (menter gymdeithasol) yn hyn o beth"*.

Mae'r berthynas rhwng cwmnïau cymdeithasol eu hunain a'r awdurdodau lleol sy'n aml yn eu cefnogi ac yn rhoi bod iddynt hefyd yn ffocws, ac mae SFW yn mynegi hyn yn glir.

Disgrifiodd aelod o Fwrdd SFW hyn fel a ganlyn *"Bu'r prif ymdrech ar Awdurdodau Lleol a gwasanaethau cyhoeddus gan dargedu'n benodol y canolfannau dydd niferus a datblygu cyfleoedd i'r rhain fod yn llawer mwy cynhyrchiol a buddiol."*

Eglurwyd hyn ymhellach drwy ddweud mai un o'r ffyrdd y mae SFW yn gweithredu yw drwy ddefnyddio'r cyllid a roddir gan Lywodraeth Cymru i ganiatáu i SFW yr amser a'r adnoddau i ryngweithio ag awdurdodau lleol dros gyfnod estynedig o amser weithiau. Derbyniwyd hyn yn llwyr gan swyddog Llywodraeth Cymru a nododd fod cyfarfodydd SFW ag Awdurdodau Lleol ac eraill yn ymwneud â *"hau'r hadau"* ac y gallai gymryd amser i ganlyniadau ddod i'r amlwg oherwydd yn aml roedd angen i SFW *"aros nes bod yr amgylchiadau yn iawn"*.

Mae bod yn effeithiol wrth gyflenwi gwasanaethau yn golygu hefyd fod yn rhaid i SFW sicrhau cydbwysedd priodol rhwng, ar y naill law, darparu gwasanaethau cefnogi am ddim i gwmnïau cymdeithasol ac awdurdodau lleol o fewn cylch gwaith ei ddyfarniad grant gan Lywodraeth Cymru ac, ar y llaw arall, yr amcan o gynhyrchu incwm ychwanegol o'i wasanaethau yn cynnwys drwy godi ar gleientiaid, a allai fod yn aelodau (h.y. cwmnïau cymdeithasol), awdurdodau lleol ac eraill, am ei wasanaethau.

Yn ôl un aelod o Fwrdd SFW, y rhesymeg yma yw, *"mae'r cyllid craidd yn galluogi SFW i gyflenwi lefel sylfaenol o waith ac yna i adeiladu ar hynny drwy fynd â gwasanaethau ymhellach"*. Gellir mynegi hyn yn nhermau dadl glasurol am fethiant y farchnad lle mae'r gweithgaredd cychwynnol a gafodd arian craidd yn goresgyn diffyg gwybodaeth ynghylch gwerth posibl y gefnogaeth a roddir gan SFW ac yn adeiladu ymddiriedaeth yn y gefnogaeth sydd ar gael, gan baratoi'r tir ar gyfer rhyngweithio mwy masnachol o amgylch cyflwyno cefnogaeth ymgynghoriaeth benodol.

Disgrifiodd Prif Weithredwr SFW hefyd y cydbwysedd fan hyn fel un sydd rhwng helpu a gwneud lle mae helpu'n awgrymu'r gefnogaeth am ddim a dalwyd gan y dyfarniad grant a'r gwneud yn amodol cyn belled ag y bo modd ar ffi ymgynghoriaeth. Mae cynnal y cydbwysedd hwn yn effeithiol yn cael ei gymhlethu ymhellach gan y ffaith fod profiad wedi

dangos fod penderfynu *"pryd a sut mae y mae gadael cleientiaid i fynd"* wedi bod yn her allweddol ac yn bwynt dysgu i SFW oherwydd os yw SFW yn aros yn rhy hir yn nid yw'r cleient yn cael gofod i ddatblygu.

Fel enghraifft cyfeiriodd Prif Weithredwr SFW at y gefnogaeth bresennol a roddir i Monwel Signs gyda Chyngor Blaenau Gwent. Yma, mae SFW yn symud allan o gyfnod y gefnogaeth ddwys ac yn ceisio rhoi i'r cleient yr her a'r profiad o ddelio â phenderfyniadau eu hunain ond eu bod yn dal i allu galw ar fewnbwn SFW os oes angen.

Drwy'n hadolygiad, rydym yn ymwybodol fod Llywodraeth Cymru newydd bwyso ar SFW ynghylch ei rôl strategol ac effaith ei raddfa ar allu sefydliad i wneud y mwyaf o'i effaith strategol a chyflenwi.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae SFW wedi ymestyn ei weithgareddau i bob rhan o Gymru ac wedi gwneud ymdrechion arbennig i wella ac ymestyn ei waith yng Ngogledd Cymru. Yn fwy cyffredinol, serch hynny, mae graddfa ac effaith strategol i SFW yn fater o beidio ag addo gormod ond cynnal disgwyliadau realistig.

Mae Cadeirydd SFW yn glir ar hyn, *"Dim ond nifer fechan o aelodau sydd gan Social Firms Wales ac felly y bydd hi, oherwydd mae sefydlu cwmni cymdeithasol yn rhywbeth eithaf anodd ei wneud ac mae'n cymryd amser hir."* Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n sylweddoli'r ffactor hwn hefyd - yng ngeiriau un o swyddogion Llywodraeth Cymru, *"maent yn gweithio gyda grŵp cleient sydd y pellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur ar brosiectau tymor hir"*.

Mewn nifer o ffyrdd, ystyrir bod y raddfa fechan hon yn rhywbeth cadarnhaol o safbwynt effeithiolrwydd gwaith SFW. Er enghraifft, disgrifiodd un rhanddeiliad menter gymdeithasol effeithiolrwydd SFW fel a ganlyn: *Mae gan Social Firms Wales 'niche' amlwg, sydd wedi'i fynegi'n dda ...... mae'r mudiad yn mwy na tynnu'i bwysau."*

Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru a holwyd, *"I Social Firms Wales, roedd ei faint bychan yn her ond fe drowyd hyn yn gryfder cadarnhaol drwy ddangos sut i fod yn fain'"* a nododd rhanddeiliad arall *"wnân nhw ddim ysgwyddo gormod o waith fel eu bod nhw'n gallu'r cyflawni'r hyn maen nhw wedi'i addo."*

Ein casgliad yma yw er bod twf yn bosibilrwydd i Social Firms Wales, mae hefyd yn dwyn risg sylweddol oherwydd dwyster y mewnbynnau sydd eu hangen wrth weithio gyda chwmnïau cymdeithasol. Mae pob cwmni cymdeithasol newydd angen cryn dipyn o waith a chefnogaeth i gychwyn ac mae'n ofyniad allweddol nad yw SFW yn tynnu allan yn rhy gyflym neu'n llwyr gan fod yr unigolion sy'n gweithio o fewn y cwmnïau cymdeithasol, yn anochel yn rhai bregus ac o dan anfantais a byddent yn wynebu risgiau ychwanegol pe bai'r cwmni cymdeithasol yn methu.

Er mwyn bod yn llwyddiannus, mae Social Firms Wales yn llwyr sylweddoli bod yn rhaid iddynt weithio gyda'r cyrff sydd â'r gobeithion gorau am lwyddiant yn hytrach na gwario adnoddau prin ac ynni yn codi disgwyliadau afrealistig, di-sail ym mhob un o'r achosion a gyfeirir atynt.

Yn ail, yn ei rôl **datblygu polisi a mewnbwn polisi**, nid yw Social Firms Wales yn chwarae rhan gwbl draddodiadol yn ei gynrychiolaeth, ymgysylltiad polisi a mewnbynnau. Yn hytrach, mae'n ffafrio mewnbwn mwy technocratig ac ymarferol o amgylch gwir broblemau a chyd-destunau sy'n gwneud gwahaniaeth amlwg i Gwmnïau Cymdeithasol a'u cyrff tarddiad (Awdurdodau Lleol fel arfer).

I Social Firms Wales, mae ei gynulleidfaoedd polisi yn 'draws doriadol' fwy neu lai gyda'r angen i gael cyfres o drafodaethau gyda gwahanol adrannau Llywodraeth Cymru ac

awdurdodau lleol yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar weithgareddau ei adran nawdd. Fodd bynnag, mae SFW hefyd yn gweld y berthynas â BETS, a'r cyfarfodydd monitro rheolaidd, yn ffordd ddefnyddiol o drafod a 'phrofi' syniadau a meddylfryd newydd ar gyfleoedd sy'n codi yn y farchnad, gan gydnabod fod angen i SFW fod yn hyblyg a bod anghenion, syniadau a safbwyntiau Llywodraeth Cymru'n bwysig.

Yn rhannol oherwydd ei *niche* amlwg a'i sylw ar gyflenwi ei wasanaethau o fewn prosiectau a deilliannau diriaethol, ymddengys fod SFW wedi datblygu enw da fel llais adeiladol a defnyddiol o fewn rhai meysydd polisi heriol yn cynnwys lleoliadau gofal cymdeithasol, gofal plant, gweithfeydd yn cau (e.e. Remploy) a gwaith gyda chyn-droseddwyr. Mae'r Bwrdd yn gweld y gwaith hwn fel cysylltu ymgysylltiad gweithredol SFW â phrosiectau cwmnïau cymdeithasol byw a chysylltiadau rheolaidd gydag ystod o adrannau polisi a thrafodaethau gydag adrannau Llywodraeth Cymru, ac yna manteisio ar wybodaeth a phrofiad tîm SFW i ddarparu dolenni cyswllt, ymatebion ymarferol a syniadau ar gyfer gweithredu ac ymyriadau.

O ystyried ei raddfa, ei reolaeth 'fain' a'i strwythur cyflenwi, yr unig ffordd y gellir cyflenwi'r datblygiad polisi a'r mewnbynnau polisi yw drwy ran a chyfraniad gweithredol pob un o aelodau'r Bwrdd wrth gyflenwi i SFW ac wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid. Yn hyn o beth, mae athroniaeth a mewnbwn y Bwrdd yn hwb sylweddol i effaith ac effeithlonrwydd y corff.

Ar yn un pryd, fodd bynnag, mae yna berygl y gallai'r gorgyflenwi presennol gan SFW gael ei weld fel y norm, ac felly o ganlyniad, fod lefelau uwch ac o bosibl, gormodol, o ddisgwyliadau'n cael eu rhoi ar y mudiad. Wrth i achosion a sefyllfaoedd anodd godi a mynnu gweithredu arnynt, gall fod perygl iddyn nhw gael eu trosglwyddo i SFW yn hytrach nag i adrannau a mudiadau mwy addas o bosibl, yn y disgwyliad y bydd SFW yn mynd allan o'i ffordd i beidio â siomi.

Yn drydydd, mae SFW yn edrych ar ei rôl fel **hyrwyddwr cyfranogiad strategol** mewn cwmnïau cymdeithasol yn bennaf drwy arddangos a bod yn rhan o'r trafodaethau a'r dadleuon sydd fel arfer yn digwydd ymhlith grwpiau a phartneriaid wrth i'r cysyniad o gwmni cymdeithasol gael ei ystyried a'i ddatblygu. Wrth ymgymryd â'r swyddogaeth hon o ddatblygu strategol, mae SFW yn rhoi pwysigrwydd mawr ar ei rôl yn sefydlu a chynnal cyfathrebu a chydweithredu ymhlith y rhai sydd ynghlwm â sefydlu a datblygu cwmnïau cymdeithasol.

Mae'r dystiolaeth y llwyddon ni i'w chasglu yn yr adolygiad hwn yn awgrymu fod rôl SFW mewn gwaith cydweithredol yn ymddangos yn un gytûn iawn, er gwaetha'r ffaith fod gorgyffwrdd anochel weithiau â chyrff eraill megis y WCVA, Canolfan Gydweithredol Cymru, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru a Chlymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru.

Disgrifiodd un rhanddeiliaid a phartner Brif Weithredwr SFW fel *"person parod iawn i gydweithredu sy'n adeiladu consensws a phartneriaeth";* dywedodd partner arall *"eu bod (SFW) yn effeithiol iawn yn rhyngweithio ag asiantaethau eraill ac yn cyfrannu'r arbenigedd penodol iawn ynghylch prosiectau allanoli i weithgareddau o'r fath."*

Yn arbennig mae SFW yn effeithiol yn defnyddio'i ymgysylltiad pendant o amgylch prosiectau cwmni cymdeithasol penodol i blannu meddylfryd a dulliau newydd mewn Awdurdodau Lleol a'r rheiny sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflenwi gwasanaethau i grwpiau agored i niwed. O ganlyniad, mae darpariaeth gwasanaeth SFW yn cyfrannu'n gynhenid at ddatblygiad strategol ac mae'n uniongyrchol gysylltiedig â datblygiad polisi ar lefel Awdurdod Lleol. O ganlyniad mae cyflenwi cefnogaeth uniongyrchol yn cyfrannu'n

anuniongyrchol at ffurfio'r amgylchedd polisi i gwmnïau cymdeithasol a thrwy hynny'n ychwanegu at effeithiolrwydd cyffredinol Social Firms Wales.

Er bod y dull hwn yn ymddangos yn effeithiol yn sicr mae hefyd wedi'i gyfyngu gan raddfa'r gweithgarwch y gall SFW ei gyflawni o fewn ei fodel gweithredu presennol. Er bod meysydd amlwg lle y gallai SFW gynyddu ei effeithiolrwydd ymhellach yn enwedig o safbwynt mewnbynnau uniongyrchol i waith Llywodraeth Cymru, byddai hyn yn gofyn am gael adnoddau ychwanegol a gosod amcanion mwy penodol gan Lywodraeth Cymru.

Er enghraifft, gallai chwarae rhan gryfach yn natblygiad atebion arloesol i gyflenwi blaenoriaethau gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys drwy weithio hyd yn oed yn agosach â ffynonellau cyllid cymdeithasol megis y Banc Elusen, Unity Bank, undebau credyd, elusennau, canolfannau cydweithredol a mentrau cymdeithasol. Ymhellach, gellid defnyddio mewnbwn ymarferol a phrofiadol SFW yn effeithiol mewn trafodaethau ag awdurdodau lleol a chyflenwyr eraill gwasanaethau cyhoeddus lle mae angen agweddau arloesol at gaffael drwy ddefnyddio cymalau cymdeithasol a chymalau buddion cymunedol a fyddai'n ehangu mynediad cwmnïau cymdeithasol (a mentrau cymdeithasol yn fwy cyffredinol)[18]

Yn olaf, rydym wedi ystyried y dystiolaeth o safbwynt pob un o agweddau pwysig **y llais y mae SFW yn ei ddarparu i'r anghenion a'r sialensiau sy'n wynebu'r sector cwmnïau cymdeithasol yng Nghymru**.

Buom yn edrych ar hyn drwy ofyn am farn a thystiolaeth am y ffordd y mae SFW yn gallu dal, i ddechrau, llais ei 'gwsmeriaid'; yn ail, y graddau y mae SFW yn darparu llais i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill sy'n awdurdodol ac yn werth gwrando arno; ac, yn olaf, y graddau y mae enw da i lais SFW.

Er nad oes gan SFW sail aelodaeth gref ac er iddo gymryd penderfyniadau clir am y ffordd orau o fynd i'r afael â'r mater hwn, gwnaeth y modd y cafodd y dull hwn gefnogaeth rhanddeiliad, partneriaid ac aelodau argraff arnom.

Er enghraifft, dywedodd un rhanddeiliad eu bod *"wedi gweld Cyfarfod Blynyddol SFW ac wedi gweld sut maen nhw'n cael 'llais' yr aelodau."* Ac o ganlyniad *"mae Social Firms Wales yn darparu llais a chefnogaeth datblygu fel ei gilydd"*

Hefyd, dywedodd rhywun a oedd yn archwilio astudiaeth achos wrthym am yr achos arbennig hwnnw, *"Roedd pawb yn ymddiried yn Social Firms Wales"* a'r rheswm dros lwyddiant y broses, i raddau helaeth oedd bod *"Hygrededd Social Firms Wales fel corff yn allweddol"*

[18] Gweler er enghraifft, "Social Enterprise in the service of the public", adroddiad Canolfan Gydweithredol Cymru 2011

# 4. Casgliadau am y gwerth am arian a gafwyd

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r dadansoddiad a gyflwynwyd yn adran 3 uchod, rydym yn dod i'r casgliad fod SFW, drwyddi draw, wedi darparu lefel dda o werth am arian y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi'i disgwyl yn rhesymol gan ei chefnogaeth ariannol ac fel arall yn ystod y cyfnod 2008 i 2012/13.

Unwaith eto hoffem dynnu sylw at y ffaith nad ydym wedi cynnal archwiliad ariannol o'r sefydliad nac wedi gwneud unrhyw brofion cyfrifo. Bu'n sylw ar asesu gwerth am arian yn seiliedig ar ganllawiau Trysorlys y DU sy'n cynghori asesu *'y gost oes gyfan a'r ansawdd er mwyn bodloni gofynion y defnyddiwr'*

Gellir crynhoi'n rhesymeg fel a ganlyn:

1. Bu ymyriad Llywodraeth Cymru fel ag y cyllidebwyd yn y tri llythyr Dyfarniad Grant sy'n ymdrin â'r cyfnod hwn, h.y. cyfanswm o bron i £500,000 (£499,973) yn ystod y cyfnod 5 mlynedd o 2008 i 2013.
2. Gwelwyd lefel gref o gyflawniad a chynnydd ar draws y rhan fwyaf o'r prif feysydd gweithgaredd.
3. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn monitro cynnydd gwariant yn erbyn y gyllideb yn rheolaidd drwy gydol y cyfnod ers y Dyfarniad Grant.
4. Mae Social Firms Wales wedi creu model gweithredu sy'n defnyddio tîm craidd bychan o staff llawn amser sy'n cael cefnogaeth tîm o staff allanol rhan amser nad yw wedi'i gytundebu ond sydd ar gael ar alwad. Mae'r model hwn yn galluogi Social Firms Wales i reoli eu sail cost tra'n cael mynediad i ystod o sgiliau a phrofiad angenrheidiol a chwmpas daearyddol.
5. Mae athroniaeth a mewnbwn y Bwrdd yn rhoi hwb sylweddol i effaith ac effeithlonrwydd y corff a dim ond oherwydd ei ran weithredol a chyfraniad pob un o aelodau'r Bwrdd, rheolaeth 'fain' a'i gyflwyniad penodol y gall y datblygiad polisi a'r mewnbynnau polisi gael eu cyflawni.
6. Nid yw Social Firms Wales yn chwarae rhan gwbl draddodiadol yn ei gynrychiolaeth, ymgysylltiad polisi a mewnbynnau. Yn hytrach, mae'n ffafrio mewnbwn mwy technocratig ac ymarferol o amgylch gwir broblemau a chyd-destunau sy'n gwneud gwahaniaeth amlwg i Gwmnïau Cymdeithasol a'u cyrff tarddiad (Awdurdodau Lleol fel arfer).
7. Mae Social Firms Wales yn rhoi pwys mawr ar ei rôl yn sefydlu a chynnal cyfathrebu a chydweithredu ymhlith y rheiny sy'n ymwneud â sefydlu a datblygu cwmnïau cymdeithasol ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu fod rôl SFW mewn cynlluniau cydweithredol yn golygu rhyngweithio cytûn.
8. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Social Firms Wales wedi ymestyn ei weithgareddau i bob rhan o Gymru ac wedi gwneud ymdrech arbennig i wella ac ehangu ei waith yng Ngogledd Cymru.
9. Un prif amcan fu cynyddu incwm ymgynghoriaeth er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar gyllid Llywodraeth Cymru. Mae cyfrifon SFW yn dangos y cafwyd cryn lwyddiant mewn mynd i'r afael â'r amcan hwn gyda llinell dueddiad o wargedion dros y cyfnod o rhwng £30,000 a £40,000 y flwyddyn.
10. Mae'r polisi a fabwysiadwyd gan SFW i beidio â chodi ffioedd aelodaeth yn arian at incwm gros a ildiwyd o tua £10,000 y flwyddyn ac mae'n debyg felly nad yw'n berthnasol

11. Er bod twf yn bosibilrwydd i SFW, mae hyn yn risg sylweddol hefyd oherwydd dwyster y mewnbynnau sydd eu hangen wrth weithio gyda chwmnïau cymdeithasol.

Am y prif resymau uchod, felly, rydym yn dod i'r casgliad fod SFW wedi darparu'r gwerth am arian y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol.

## 5. Argymhellion

Fel rhan o'r cwmpas gwaith y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru, gofynnwyd i ni adolygu sut mae'r cyrff a gefnogir yn cyd-fynd â pholisi ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru i'r dyfodol, a, lle'n briodol, gwneud argymhellion ynghylch cefnogaeth bellach gan Lywodraeth Cymru i'r cyrff dan sylw.

Mae'r 'agenda' Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf wedi canolbwyntio'n arbennig ar rôl mentrau cymdeithasol ym maes cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Ar yr un pryd mae'r cyfleoedd gwaith i'r unigolion hynny sydd o dan anfantais yn y farchnad lafur yn cynnwys pobl ag anableddau, problemau iechyd meddwl a chyn-droseddwyr wedi'u cyfyngu, yn arbennig mewn cyfnod o ddirwasgiad a chyni economaidd. Er bod menter gymdeithasol yn cynnig un ffordd o wneud iawn am rai o'r anfanteision a'r anghydraddoldebau hyn, i'r rheiny sydd bellaf o'r farchnad lafur draddodiadol, mae angen delio a mynd i'r afael â materion cymhleth ychwanegol.

Pwrpas cwmni cymdeithasol yw darparu amgylchedd gweithle sy'n economaidd a chymdeithasol gynaliadwy lle y gall y rheiny sydd o dan yr anfantais fwyaf yn y farchnad lafur gael eu cyflogi, eu harfogi â sgiliau a'u cefnogi. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd yn yr adolygiad hwn, credwn fod ymgysylltiad tymor hir SFW yn ffactor pwysig o ran sicrhau y gall hyder ac annibyniaeth rheolwyr a gweithlu cwmnïau cymdeithasol gael eu sefydlu a'u cynnal.

Wrth daclo'r problemau a'r anghenion hyn, mae gwaith SFW felly yn greiddiol fel ag y disgrifir yn ei ddatganiad cenhadaeth,

> ***"Tyfu'r sector Cwmnïau Cymdeithasol er mwyn cynyddu cyfleoedd gwaith i bobl ag anableddau, problemau iechyd meddwl, cyn-droseddwyr a phobl sy'n dod dros gamddefnyddio sylweddau a helpu i frwydro digartrefedd ledled Cymru."***[19]

Ar y sail hon fe ddown i'r casgliad fod gwaith Social Firms Wales yn dal i fod yn berthnasol iawn i bolisi ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru fel ag yr amlinellwyd yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae ymrwymiad i o leiaf dair blynedd o gyllid yn angenrheidiol i ganiatáu sicrhau'r ymgysylltiad tymor hir sydd ei angen ar gwmnïau cymdeithasol a sicrhau'r momentwm presennol o drafodaethau datblygu gydag awdurdodau lleol ac eraill ynghylch cwmnïau cymdeithasol posibl.

Wrth ddod i'r casgliad hwn nodwn fod y gwaith a wneir gan SFW gydag ystod o fudiadau partner a chleient sydd â rhan mewn sefydlu neu ystyried sefydlu cwmnïau cymdeithasol, o anghenraid, ychydig yn fwy dwys a thymor hir na'r hyn a wneir pan fo cyrff cefnogi busnes y brif ffrwd yn gweithio gydag entrepreneuriaid a pherchnogion-reolwyr i gynghori ar sefydlu micro fusnes neu Fusnes Bach neu Ganolig.

**Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi cyllid craidd i Social Firms Wales am gyfnod pellach o 3 blynedd hyd at fis Mawrth 2016.**

[19] Cynllun Datblygu Busnes 2012 – 2015, Social Firms Wales, Gorffennaf 2012

Er y gallai ei raddfa cymharol fechan gael ei gweld fel anfantais mewn rhai ffyrdd, mae'r gwaith a wneir gan SFW yn hanfodol i adnabod, meithrin a manteisio ar gyfleoedd penodol drwy greu a chynnal cwmnïau cymdeithasol.

Yn ychwanegol, gellir gweld gwaith SFW hefyd fel rhywbeth sy'n cyfrannu'n sylweddol at barodrwydd a hyder rhanddeiliaid a phartneriaid i fynd ar ôl cyfleoedd cwmni cymdeithasol wrth allanoli rhai gwasanaethau cyhoeddus addas a'u parodrwydd i feddwl am ddatrysiad ar ffurf cwmni cymdeithasol.

**Wrth gytuno ar amcanion i'r dyfodol a deilliannau a dargedwyd o'i ddyfarniad grant craidd, argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru barhau i bwysleisio hyrwyddo cwmnïau cymdeithasol fel ffurf bosibl yng nghyd-destun allanoli gwasanaethau cyhoeddus ac ymhellach, y dylai Social Firms Wales barhau i gefnogi creu cwmnïau cymdeithasol newydd a hyrwyddo cynaliadwyedd cwmnïau cymdeithasol newydd.**

Bydd hi'n bwysig y gall cyfle i SFW fynd ar ôl cyfleoedd creu incwm y tu allan i grantiau craidd Llywodraeth Cymru barhau, ond ni ddylai'r rhain dynnu oddi ar y gefnogaeth cwmni cymdeithasol craidd a'r cyflenwi gwasanaeth a wneir gan SFW . Er nad ydym wedi darganfod meysydd penodol lle y digwyddodd hyn, wrth i SFW ddod yn fwy gweithredol ar draws ystod o feysydd cyflenwi gwasanaeth, bydd hy'n bwysig fod tryloywder ac eglurder ar linellau terfyn o fewn cyllidebau a defnydd SFW o adnoddau. Mae angen i rôl ddatblygol SFW wrth ddarparu cefnogaeth ddatblygu a modelau cyflenwi mewn meysydd angen penodol, er enghraifft, gwasanaethau gofal plant a chefnogaeth i gyn-droseddwyr, gael ei reoli'n ofalus gan SFW a'i fonitro gan Lywodraeth Cymru.

Yn yr un modd, bydd hi'n bwysig nad yw enw da SFW fel cyflwynydd dibynadwy a phartner strategol ar draws ystod o feysydd yn arwain at SFW yn dod yn fan galw cyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer ystod rhy amrywiol o weithgareddau peilot a gwaith datblygu a allai arwain yn y pen draw at 'wyro'r genhadaeth'.

**Argymhellwn felly fod Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio'n agos yn monitro gwaith a deilliannau SFW yn rheolaidd gan ystyried yr angen am eglurder rhwng y cyflawniadau craidd a ddisgwylir oddi wrth SFW gan Lywodraeth Cymru a'r prosiectau ychwanegol, allanol y gallai SFW ymgymryd â nhw yn cynnwys y rheiny y gofynnwyd amdanynt gan adrannau Llywodraeth Cymru ond nas ymdriniwyd â hwy gan y dyfarniad cyllid craidd a'r targedau.**

Fel ag y nodwyd yn yr adolygiad, mae'r ffaith fod Social Firms Wales wedi llwyddo i gynhyrchu incwm ychwanegol, wedi arwain at gynnydd sylweddol yn yr arian datblygu a grynhowyd a allai fod ar gael i SFW ei ddyrannu. Mae'n bwysig, o ystyried yr argymhelliad uchod, fod Llywodraeth Cymru yn gofyn am eglurder ynghylch polisi a bwriadau SFW a'i Fwrdd o ran dyrannu'r arian datblygu wrth gefn a grynhowyd.

**Ym mhob adolygiad blynyddol gyda Social Firms Wales, argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n gofyn am gadarnhad fod Bwrdd Social Firms Wales wedi trafod a mabwysiadau datganiad polisi sy'n gosod allan yn ddigonol ei fwriadau ar gyfer defnyddio'r arian wrth gefn a ddatganwyd yng nghyfrifon blynyddol archwiliedig y blynyddoedd cynt.**

Yn olaf, er ein bod yn cydnabod y rôl datblygu strategol a mewnbwn polisi a chwaraewyd gan SFW drwy ei ddull ymarferol o ddelio â phrosiectau ac achosion cyffyrddadwy, rydym hefyd yn credu, er mwyn bod hyd yn oed yn fwy effeithlon ac effeithiol, y byddai'r dull hwn yn gofyn i SFW allu gweithredu ar raddfa fwy er mwyn cyrraedd croestoriad mwy o randdeiliaid perthnasol. Yn erbyn hyn, fodd bynnag, byddai ariannu twf yn y raddfa o wasanaethau cefnogi uniongyrchol drwy SFW yn awgrymu y dylai llwybrau comisiynu neu

gaffael eraill gael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru, yn arbennig yng nghyd-destun y sefyllfa fel y mae hi o ran yr arian datblygu sydd wrth gefn.

I Lywodraeth Cymru, yn ogystal ag i Social Firms Wales, serch hynny, mae yna sawl risg wrth symud ymlaen.

Ar y naill law, fel ag y nodwyd uchod, down i'r casgliad fod y gefnogaeth ddwys a gofalus a roddwyd i gwmnïau cymdeithasol sefydledig a'r rhai sydd megis ddechrau, yn ei profiad ni, yn annhebygol o fod ar gael gan ddarparwyr cefnogaeth fusnes mwy traddodiadol y brif ffrwd sy'n gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, wrth i'r 'farchnad' yng Nghymru sydd ynghlwm wrth gwmnïau cymdeithasol a mentrau cymdeithasol barhau i ddatblygu (wedi'i hyrwyddo, i raddau helaeth, gan SFW), mae'n ymarferol y gallai darparwyr o ardaloedd eraill y DU allu cyflenwi gwasanaethau cefnogi yng Nghymru.

Serch y posibilrwydd hwn, ar hyn o bryd, ni chredwn fod digon o dystiolaeth, yng Nghymru, o raddfa o weithgaredd mewn creu a datblygu cwmnïau cymdeithasol a fyddai'n cyfiawnhau proses gaffael agored. Ymhellach, byddai ceisio cyflymu'r broses honno yn beryg o niweidio'r momentwm y mae Llywodraeth Cymru wedi helpu i'w gynhyrchu ymhlith awdurdodau lleol ac eraill i weld cwmnïau cymdeithasol fel dull arall hyfyw a diddorol o gwrdd â'u hallanoli a'u hamcanion cymdeithasol a chymunedol.

Er y gallai caffael gwasanaethau cefnogi cwmnïau cymdeithasol yng Nghymru fod yn ymarferol dros y tair blynedd nesaf; ar hyn o bryd ni chredwn fod digon o dystiolaeth, yng Nghymru, o raddfa o weithgaredd mewn creu a datblygu cwmnïau cymdeithasol a fyddai'n cyfiawnhau proses gaffael agored. O ystyried y bwlch amser cymharol hir rhwng trafodaethau cychwynnol â rhanddeiliaid a rheolwyr posibl a chreu cwmnïau cymdeithasol, credwn ei bod yn briodol caniatáu i SFW a'i aelodau a'i bartneriaid yng Nghymru gyfnod arwain i mewn hirach i baratoi at ymarfer profi'r farchnad neu gaffael nag a fyddai'n wir, dyweder, gyda gwasanaeth cefnogi busnes prif ffrwd.

O ystyried y gwerth am arian cryf a geir ar hyn o bryd a'r rhesymau lliniarol a nodwyd uchod, ni ystyriwn fod hwn yn fater cyfredol na brys a byddem yn argymell na ddylid ystyried ymarfer profi'r farchnad neu gaffael hyd nes chwarter olaf 2014/15 gyda golwg, os penderfynirz hynny, ar iddo ddod i rym ddim cynharach na mis Ebrill 2016.

**Argymhellwn felly y dylai Llywodraeth Cymru, cyn diwedd y cyfnod ariannu nesaf, archwilio'r achos dros brofi'r farchnad, neu gaffael drwy gystadleuaeth, wasanaethau cefnogi uniongyrchol ar gyfer datblygu a chefnogi cwmnïau cymdeithasol yng Nghymru.**

# Atodiad 1: Y Cyfweliadau a gynhaliwyd

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**

- Duncan Hamer
- Karyn Pittick
- Iain Willox

**Aelodau Bwrdd Social Firms Wales**


- Martin Price, Cadeirydd Social Firms Wales
- San Leonard, Prif Swyddog Gweithredol, Social Firms Wales
- Rosie Cribb, Aelod Bwrdd, Social Firms Wales
- Lorraine Powers, Aelod Bwrdd, Social Firms Wales

**Rhanddeiliaid eraill**

- Elwyn James, Arts Factory a Chadeirydd Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru
- Jane Lee, WLGA
- Geoff Jones, WCVA
- Derek Walker, Cyfarwyddwr, Canolfan Gydweithredol Cymru
- Mark White, Banc Elusen
- Gareth Jones, Prif Swyddog Adfywio, Cyngor Sir Blaenau Gwent
- Jacqui Vaughan Jones, Cyngor Sir y Fflint

# Atodiad 2: Social Firms Wales – model rhesymeg

## Social Firms Wales – a logic model




CM International
...driving innovation

2

## Atodiad 3: Dibenion Llywodraeth Cymru wrth roi Cyllid Grant arian craidd i SFW – 2012/2013

| Amcanion | Deilliannau |
|---|---|
| **Amcan 1af:** Datblygu Partneriaeth Newid Cymdeithasol ychwanegol mewn ardal Awdurdod Lleol, a chynnal y partneriaethau sy'n bodoli'n barod. | **Deilliant 1af:** Dwyn ynghyd partneriaethau traws-sector cefnogol a reolir sy'n cefnogi datblygiad cymunedol ac economaidd - Y deilliant eilaidd yw bod y fframwaith partneriaeth yn gweithredu fel broceriaeth lle y gall pob un o'r cyfleoedd cymunedol gael eu cysylltu a'u defnyddio. |
| **2il Amcan:** Cefnogi datblygu Cwmni Cymdeithasol / Busnes a Gefnogir newydd, a pharhau i gefnogi'r rheiny a grëwyd yn barod. | **2il Ddeilliant:** Cwmnïau Cymdeithasol yn dilyn proses ddatblygu Cwmni Cymdeithasol strwythuredig hyd at y cam gweithredu a thu hwnt. |
| **3ydd Amcan:** Un Cwmni Cymdeithasol / Busnes a Gefnogir wedi'i greu gyda rhagolygon cynaliadwyedd yn y tymor hir | **3ydd Deilliant:** Cwmni sy'n fasnachol hyfyw wedi'i ddatblygu gyda'r potensial i fodoli y tu hwnt i'r cyfnod ariannu cychwynnol. |
| **4ydd Amcan:** Codi ymwybyddiaeth o'r broses Mecanwaith Arwahanu i gyrff yng nghamau cyntaf datblygu prosiect, gan amlygu a datblygu elfen fasnachol tuag at statws Cwmni Cymdeithasol. | **4ydd Deilliant:** Agwedd benodol at ddatblygu a sefydlu Cwmni Cymdeithasol, gan olygu'r tarfu lleiaf ar weithgarwch prosiect cymdeithasol. |
| **5ed Amcan:** Cynnal 1 digwyddiad Cymru gyfan i ddwyn ynghyd aelodau SFW, y rheiny sydd â diddordeb mewn Cwmnïau Cymdeithasol a menter gymdeithasol, partneriaid cenedlaethol, cyrff cefnogi busnes a'r sector preifat i rannu gwybodaeth, cyfleoedd, heriau ac arfer gorau | **5ed Deilliant:** Deall yr anghenion a'r galwadau o bob agwedd o'r sector, a fydd yn sail i barhau i gyflwyno cefnogaeth fusnes ar gyfer twf parhaus y mudiad Cwmni Cymdeithasol a'r sector menter gymdeithasol yn ehangach. |
| **6ed Amcan:** SFW i gymryd rhan yn, a chyfrannu at, ddarparu cyngor polisi ar lefel strategol, a, lle y teimla'i bod yn briodol gwneud hynny, cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hamcanion polisi sy'n gysylltiedig â Chwmnïau Cymdeithasol. | **6ed Deilliant:** SFW yn defnyddio'i brofiad a'i arbenigedd ym maes Cwmnïau Cymdeithasol i ychwanegu gwerth at waith cysylltiedig Llywodraeth Cymru, y WLGA a'r Trydydd Sector yng Nghymru. |
| **7fed Amcan:** SFW i ysgogi cyllid ychwanegol ar gyfer gwaith i hyrwyddo a datblygu Cwmnïau Cymdeithasol / Busnesau a Gefnogir yng Nghymru. | **7fed Deilliant**: Yr incwm a enillwyd yn helpu'r mudiad i gymryd camau tuag at annibyniaeth ariannol, ac i ddatblygu mwy o arian parod wrth gefn. |

***Ffynhonnell:** Llythyr Dyfarnu Grant Llywodraeth Cymru 15 Mai 2012*

# Atodiad 4: Prif Weithredoedd, Deilliannau Targed a Chyflawniadau Social Firms Wales

| Prif Weithred | Deilliannau Targed 2008-13 | Cyflawnwyd hyd at Awst 2012 |
|---|---|---|
| **1. Datblygu 4 partneriaeth newid cymdeithasol mewn pedair ardal awdurdod lleol;** | | |
| | Dwyn ynghyd partneriaethau traws-sector cefnogol a reolir sy'n cefnogi datblygiad cymunedol ac economaidd<br><br>Y deilliant eilaidd yw bod y fframwaith partneriaeth yn gweithredu fel broceriaeth lle y gall pob un o'r cyfleoedd cymunedol gael eu cysylltu a'u defnyddio. | Partneriaethau newid cymdeithasol wedi'u sefydlu yn Sir Ddinbych, Powys, Casnewydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir y Fflint, ac mae gwaith yn cael ei ddatblygu mewn ardaloedd eraill |
| **2. Cefnogi datblygu 11 o gwmnïau cymdeithasol/busnesau a gefnogir yng Nghymru;** | | |
| | Cwmnïau Cymdeithasol yn dilyn proses ddatblygu Cwmni Cymdeithasol strwythuredig hyd at y cam gweithredu a thu hwnt. | Rhoddwyd cyngor a chefnogaeth busnes i tua 84 o gwmnïau cymdeithasol neu rai ar fin cychwyn. Dyma rai o'r cleientiaid mwyaf amlwg:<br>▪ Beacons Creative<br>▪ PAck-IT Hereford<br>▪ Your Pets Warehouse<br>▪ The Deetex project<br>▪ not Just Nuts<br>▪ Park View Cafe<br>▪ Greenshoots Event catering<br>▪ Meadow Mill CIC<br>▪ Gegin Fach Barista<br>▪ Cyngor Sir Powys<br>▪ Rhondda Life |

| | |
|---|---|
| | - B-Leaf<br>- Wood-B<br>- Monwel Signs & Services |
| **3. Creu 7 cwmni cymdeithasol/busnesau â rhagolygon tymor hir;** | |
| Cwmni sy'n fasnachol hyfyw wedi'i ddatblygu gyda'r potensial i fodoli y tu hwnt i'r cyfnod ariannu cychwynnol. | Adroddiadau Monitro yn amlygu'r canlynol:<br>- Gegin Fach Barista<br>- Deetex<br>- Your Pets Warehouse<br>- Beacons Creative<br>- Double Click Design and Print<br>- PAck-IT Hereford<br>- not Just Nuts<br>- Park View Cafe<br>- Greenshoots Event catering |
| **4. Codi ymwybyddiaeth o'r broses Mecanwaith Arwahanu i gyrff yng nghamau cyntaf datblygu prosiect, gan amlygu a datblygu elfen fasnachol tuag at statws Cwmni Cymdeithasol.** | |
| Agwedd benodol at ddatblygu a sefydlu Cwmni Cymdeithasol, gan olygu'r tarfu lleiaf ar weithgarwch prosiect cymdeithasol. | Gwnaed cyflwyniadau ar o leiaf 18 achlysur yn 2010 – 2012 gyda'r sylw'n symud i gyfarfodydd manwl gydag awdurdodau lleol wrth i'r agenda diwygio gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ddatblygu.<br>*"Mae'r amcan hwn yn rhan o nifer o sgyrsiau a chyfarfodydd ac mae'n prysur ddod yn norm mewn perthynas â'r holl gyflenwi y cytunwyd arno gan Social Firms Wales."* Gorffennaf 2012 |
| **5. Cynnal 1 digwyddiad Cymru gyfan i ddwyn ynghyd aelodau SFW, y rheiny sydd â diddordeb mewn Cwmnïau Cymdeithasol a menter gymdeithasol, partneriaid cenedlaethol, cyrff cefnogi busnes a'r sector preifat i rannu gwybodaeth, cyfleoedd, heriau ac arfer gorau** | |
| Deall yr anghenion a'r galwadau o bob agwedd o'r sector, a fydd yn sail i barhau i gyflwyno cefnogaeth fusnes ar gyfer twf parhaus y mudiad Cwmni Cymdeithasol a'r sector menter gymdeithasol yn ehangach. | Mae'r prif ddigwyddiadau wedi cynnwys:<br>- Cyfarfod Blynyddol gyda'r Gweinidog yn bresennol ym mis Gorffennaf 2012<br>- Y CEO yn cymryd rhan mewn digwyddiadau menter gymdeithasol eraill |

| **6. SFW i gymryd rhan yn, a chyfrannu at, ddarparu cyngor polisi ar lefel strategol, a, lle y teimla'i bod yn briodol gwneud hynny, cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hamcanion polisi sy'n gysylltiedig â Chwmnïau Cymdeithasol.** | |
|---|---|
| SFW yn defnyddio'i brofiad a'i arbenigedd ym maes Cwmnïau Cymdeithasol i ychwanegu gwerth at waith cysylltiedig Llywodraeth Cymru, y WLGA a'r Trydydd Sector yng Nghymru. | Enghraifft o ddigwyddiadau 2010 - 2012<br>▪ Cyfarfod Monitro Llywodraeth Cymru<br>▪ Cyfarfodydd 3 gwlad Cwmnïau Cymdeithasol<br>▪ Clymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru<br>▪ Partnering Probation, Forging Ahead – Gweithdy Ymddiriedolaeth Prawf Cymru<br>▪ Cyfarfod Buddsoddi Cymdeithasol y Gronfa Loteri Fawr (BIG)<br>▪ WINSENT (Wales Ireland Network for Social Entrepreneurship)<br>▪ "Catch the Wave" – Cynhadledd WINSENT, Dulyn<br>▪ SEEN3 (Rhwydwaith Economi a Menter Gymdeithasol, 3ydd Sector, Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) |
| **7. SFW i ysgogi cyllid ychwanegol ar gyfer gwaith i hyrwyddo a datblygu Cwmnïau Cymdeithasol / Busnesau a Gefnogir yng Nghymru.** | |
| Yr incwm a enillwyd yn helpu'r mudiad i gymryd camau tuag at annibyniaeth ariannol, ac i ddatblygu mwy o arian parod wrth gefn. | Cyllid ychwanegol a ysgogwyd yn 2010-11 £29,637<br>Cyllid ychwanegol a ysgogwyd yn 2011-12 £119,723<br><br>Incwm ymgynghoriaeth wedi tyfu o 17% yn 2009/10 i 52% yn 2011/12 |

# Atodiad 5: Social Firms Scotland a Social Firms UK: gweithgareddau a materion trafod

## Social Firms Scotland (SFS)

**Cyfweliad gyda Pauline Graham Prif Swyddog Gweithredol**

**Sefydlu**

Mae gan SFS 3 aelod o staff craidd llawn amser sy'n gweithio'n uniongyrchol ar yr *Acquiring Business for Good Project* (Ariannwyd gan y Loteri Fawr) sy'n dod i ben yn Rhagfyr 2012 (Mehefin 2012 i geisiadau newydd).

Mae trosiant oddeutu £150-200K y flwyddyn. Prif arianwyr SFS yw Llywodraeth yr Alban (Is-adran y Trydydd Sector) a'r Loteri Fawr.

Mae SFS yn ail flwyddyn cynllun gweithio ar y cyd gyda Social Enterprise Scotland a Senscot – mewn geiriau eraill, cânt eu his-ariannu i rai gweithgareddau gan fudiadau menter gymdeithasol eraill

**Aelodaeth**

Mae'r aelodaeth yn weddol sefydlog ar 69 o aelodau. Mae aelodau SFS yn talu £90 y flwyddyn (50% o'r incwm o fasnachu, 25% gweithlu o dan anfantais ddwys) ac aelodau Cysylltiol £130 yf

Caiff yr aelodau fynediad am ddim i wasanaethau cefnogi busnes Social Firms Scotland, mynediad am ddim i offerynnau cynllunio busnes / cardiau sgorio Social Firms UK (sydd fel arfer rhwng £50-90) a chânt eu rhestru yn y cyfeirlyfr/map ar wefan Social Firms Scotland. Mae'r aelodau'n rhan o rwydwaith, yn derbyn bwletinau, ymweliadau a chyhoeddusrwydd achlysurol drwy waith tîm craidd SFS.

**Gwasanaethau**

Y cynnig craidd yw:

- Gwybodaeth
- Cyngor
- Cefnogaeth uniongyrchol i aelodau
- Gwaith polisi
- Cyfathrebu

Mae SFS yn amcangyfrif eu bod yn derbyn ac yn trafod tua 150 o ymholiadau'r flwyddyn.

***Just Enterprise*** - yn wahanol i nifer o gyrff maent yn dal i allu cynnig cefnogaeth datblygu busnes sy'n cael ei werthfawrogi gan yr aelodau. Nid oes ganddynt becyn safonol ond maent yn darparu ychydig o gefnogaeth o dan y rhaglen Just Enterprise (sy'n cynnig 8 diwrnod i fenter gymdeithasol) i Lywodraeth yr Alban fel is-gontractwr i CEiS[20].

***Acquiring Business for Good*** – ariannwyd hwn gan BIG ond daeth y cyllid i ben ym Mehefin 2012.

Sefydlwyd y rhaglen "Acquring Business for Good" i gael cwmnïau cymdeithasol i brynu cwmnïau llwyddiannus yn y sector preifat a'u troi'n gwmnïau cymdeithasol. Dros 4 blynedd mae SFS wedi

[20] Corff sy'n rhoi sylw i gymunedau a menter yn yr Alban gyda llwyddiant blaenorol o 25 mlynedd

cefnogi (i raddau amrywiol) 50 o fudiadau a seliwyd 9 bargen. Dim ond 2 o'r rhai oedd yn golygu 'trosi' o'r sector preifat, roedd yn lleill yn fudiadau'r trydydd sector a oedd yn disgwyl dod yn gwmnïau cymdeithasol. Cafodd 4 bargen bosibl gyda'r sector preifat eu 'herthylu' ar y ffordd. Roedd nifer o fanteision annisgwyl yn cynnwys cefnogaeth *pro bono* gan gyfreithwyr a chyfrifwyr a oedd yn dymuno cael busnes tymor hir yn y maes hwn.

Mae SFS yn dymuno prif ffrydio'r rhaglen hon ac ar hyn o bryd maent yn trafod parhad gydag Is-adran Trydydd Sector Llywodraeth yr Alban.

## Social Firms UK

**1. Cyfeirlyfr**

Mae Social Firms UK yn rhedeg y cyfeirlyfr 'Just Buy' ar gyfer gwasanaethau a thendrau a gyflenwir gan gwmnïau cymdeithasol. Yn eu tyb nhw, mae Just Buy yn rhan gynyddol bwysig o'u gwaith wrth iddo ddod yn fwy defnyddiol fel adnodd. Maent yn gobeithio ehangu defnyddwyr i fwy o gyrff preifat a chyhoeddus sy'n ystyried prynu gan gwmnïau cymdeithasol (yn hytrach nag o fewn y sector). Wrth iddo gael mwy o ddefnydd maent yn gobeithio gallu ei gynnig yn fwy fel offeryn ymarferol - er enghraifft caiff ei ddefnyddio fel y llwyfan i'w gwaith yn recriwtio consortia i gynnig am gyllid NOMS (gweler isod).

**2. Gwasanaethau cefnogi busnes**

Yn ddiweddar newidiodd Social Firms UK ei ffocws i weithio gyda phob un or WISE (y mae Cwmnïau Cymdeithasol yn is-set ohono). Mae'r gwasanaethau ar gyfer aelodau'n unig ac maent yn cynnwys: cefnogaeth a chyngor ar gyrraedd a chadw safon ansawdd y *Star Social Firm*; a broceriaeth i unigolion preifat sydd â sgiliau cyllid, marchnata, AD neu ddatblygu busnes y maent yn fodlon dod i fyrddau Cwmnïau Cymdeithasol ar sail wirfoddol.

Mae'r gefnogaeth a roddir yn tueddu i olygu ymweliadau neu (yn fwyfwy cyffredin) galwadau ffôn i Michele (Prif Swyddog Gweithredol) neu Di (Cydlynydd Gwasanaeth) sy'n rhoi cefnogaeth/cyngor uniongyrchol. Maent hefyd yn cyfeirio pobl at gefnogaeth allanol arall (fforddiadwy) ac yn darparu adnoddau cefnogi Social Firms UK (ee pecynnau cymorth).

Mae rhai aelodau, yn enwedig cwmnïau sy'n dechrau, yn chwilio am "gryn dipyn o gefnogaeth" gan Social Firms UK. Mae'n mynd yn fwy o broblem treulio gormod o amser yn gweithio gyda nifer fechan o bobl gan fod eu trosiant yn mynd yn llai ac ni ellir treulio gormod o amser gyda nifer fechan o aelodau: "mae'n rhaid i ni fod yn fwy gofalus ynglŷn â faint o amser rydym yn ei dreulio gyda rhai pobl."

**3. Gweithio gyda gwneuthurwyr polisi / ymarferwyr tramor**

Yn achlysurol mae Social Firms UK yn trefnu ymweliadau 'arfer gorau' â WISEiau yn y DU - *"y dyddiau yma mae'r math o bobl sy'n gofyn amdano yn dod o dramor."* Maent yn tueddu i ddangos diddordeb mewn ymarfer cwmnïau cymdeithasol yn y DU. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys pobl o Sweden, Norwy ac Awstralia. Bu hyn yn rhan fawr o waith Social Firms UK yn y blynyddoedd diwethaf. "Rydym ni (y DU) ar flaen y gad."

**4. Pecynnau cymorth**

Mae Social Firms UK wedi datblygu ac yn gwerthu offerynnau cynllunio busnes / cardiau sgorio (sydd fel arfer yn £50-90).

**5. Cyswllt ar gyfer ceisiadau'r Rhaglen NOMs *More than the Sum*.**

Mae Social Firms UK (drwy'r wefan Just Buy) yn gweithredu fel canolbwynt gwybodaeth a brocer i'r rhaglen NOMs a anelwyd at gefnogi creu consortia seiliedig ar fenter. Y swyddogaeth yw ceisio dod â darpar bartneriaid ynghyd i gyflwyno bidiau (bydd cyllid NOMs yn cael ei ddyrannu i'r rhai llwyddiannus ym mis Rhagfyr 2012).

**Y cynnig i aelodau:**

Aelodau llawn (hy WISEiau) £135 yf – Aelodau Cysylltiol £135yf

Mae'r incwm aelodaeth yn cynrychioli cyfran fechan o incwm Social Firms UK - 5-10%.

Mae'r aelodau'n cael: mynediad am ddim i wasanaethau cefnogi busnes Social Firms UK, mynediad am ddim i offerynnau cynllunio busnes / cardiau sgorio Social Firms UK a chael eu rhestri yng nghyfeirlyfr gwefan Just Buy.

**Arianwyr ac anghenion yr arianwyr:**

Arian craidd drwy raglen Cronfa Drosiannol Partneriaid Strategol yn yr OCS (Swyddfa'r Cabinet).

Yn (a chyn) 2010/11 derbyniodd Social Firms UK oddeutu £125,000 y flwyddyn gan y Rhaglen Partneriaid Strategol. Mae'r rhaglen hon yn dod i ben yn raddol erbyn 2014/15 ac mae'r Gronfa Drosiannol Partneriaid Strategol yn raddol leihau swm y cyllid flwyddyn ar ôl blwyddyn tan hynny.

Yn 2011/12 derbyniodd Social Firms UK gyfran o £315,000 a rannwyd ymhlith pum asiantaeth gefnogi mentrau cymdeithasol fel ei arian craidd. Ar hyn o bryd mae'r arian hwn yn talu am agweddau o gostau craidd Social Firms UK - mae yna bethau i'w cyflwyno'n flynyddol y cytunwyd arnynt sy'n gysylltiedig â'r arian (ee sy'n ymwneud â darparu cefnogaeth fusnes, rhwydwaith, mynegbyst, cyfeirlyfr, cefnogaeth i ymholiadau rhyngwladol - "dim byd allan o'r cyffredin") - maent yn teimlo fod mwy yn cael ei ddisgwyl ganddynt gyda llai o arian.

Maent hefyd yn derbyn swm bychan o incwm grant ychwanegol - er bod hwn yn fach mae'n mynd yn fwy a mwy pwysig wrth i gyllid Craidd y Partner Strategol gael ei leihau/ei dynnu ymaith.

Prif ffynhonnell incwm Social Firms UK i symud ymlaen yw incwm o fasnachu (cyflenwi contractau) - cyflwyno gwasanaethau cefnogi a gomisiynwyd/a gaffaelwyd (ee y gwaith NOMs a ddisgrifiwyd uchod).

Nid Swyddfa'r Cabinet yw'r unig elfen lywodraeth y mae Social Firms UK yn ymgysylltu â hi. Enghreifftiau nodedig mewn llywodraeth ganolog yw'r Swyddfa Gartref (lle buont yn gweithio ar brosiect gwirfoddoli) a NOMS (sydd fel arfer yn gwneud mwy nag adrannau eraill gyda menter gymdeithasol).

Mae Social Firms UK hefyd yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol drwy fynd atynt a thrwy gael eu holi (maent yn tueddu i ddefnyddio aelodau cysylltiol os ydynt yn cael eu holi). Mae'r gwaith hwn yn ymwneud yn bennaf â dylanwadu ar ALlau o safbwynt prynu gan gwmnïau cymdeithasol neu weithio gyda Gwasanaethau Oedolion sy'n eu cynorthwyo i symud o ddefnyddio "cyflogaeth dan gymorth" i gwmnïau cymdeithasol/WISEiau.

## Y berthynas rhwng SFUK; SFS ac SFW

**Barn SFUK am y berthynas**

Mae Social Firms UK a Social Firms Scotland a Social Firms Cymru yn cyfarfod ac mae cyswllt rhyngddynt. Maent yn ymwybodol o'r angen i osgoi dyblygu (ac aelodaeth yn gorgyffwrdd).

Teimla SFUK fod dal i fod rôl i gorff DU (yn hytrach na Lloegr yn unig) (un enghraifft yw nad yw ymwelwyr tramor yn deall y gwahaniaethau rhwng y 4 gwlad).

Gwnaed penderfyniad diweddar (Cyfarfod Blynyddol 2011) gan SFUK i recriwtio aelodau'n uniongyrchol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ogystal â Lloegr yn hytrach na recriwtio drwy Social Firms Wales a Social Firms Scotland.

**Barn SFS arm y berthynas:**

Ar draws y DU, nid yw'r asiantaethau cwmni cymdeithasol cenedlaethol yn cyfarfod yn rheolaidd

Teimlir fod SFUK eisiau perthynas oedolyn/plentyn gyda'r lleill

Mae SFS yn cadw mewn cysylltiad â SFW i gyfnewid gwybodaeth yn hytrach na datblygu gweithgareddau ar y cyd.

Dim ond 1 aelod staff sydd gan SFUK erbyn hyn

**Barn Social Firms Wales am y berthynas**

Perthynas resymol drwyddi draw ond mae Cymru a'r Alban wedi dadlau y dylent 'reoli' eu haelodaeth eu hunain yn hytrach na'u trosglwyddo i SFUK

Mae SFUK wedi 'arwyddo' aelodau o Gymru heb gyfeirio at SFW

Mae Prif Weithredwr SFUK newydd ymddiswyddo

Mae Prif Weithredwr SFW yn eistedd ar Fwrdd SFUK ac wedi cyflwyno papur sy'n dadlau dros strwythur 4 gwlad o dan ambarél SFUK - gallai SFUK ymdrin â pholisi gan adael y gwaith cyflwyno i SF England